GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales






# 2025/26

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Adran 1
## Adroddiad Perfformiad



# RHAGAIR

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2025/2026.

Mae adroddiad eleni yn adlewyrchu ehangder a dyfnder parhaus ein gwaith ar draws ein chwe blaenoriaeth strategol, wedi'i ategu gan ein strategaeth hirdymor, *Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach 2023–2035*. Mae'n tynnu sylw at y cynnydd a wnaethom a'r heriau yr ydym yn parhau i'w hwynebu wrth i ni weithio i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau ledled Cymru.



**Pippa Britton OBE PLY**
Cadeirydd y Bwrdd
Iechyd Cyhoeddus Cymru



**Tracey Cooper OBE**
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod eithriadol o brysur a heriol arall. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ein cynllun strategol, gan gyflawni dros 80 y cant o'n cerrig milltir arfaethedig a pharhau i aeddfedu fel sefydliad yn y ffordd rydym yn cyflawni effaith ar raddfa fawr.

Mae'r cynnydd hwn wedi'i gyflawni yn erbyn cefndir cymhleth ac esblygol, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd parhaus, galw cynyddol ar draws gwasanaethau iechyd a gofal, effeithiau hirdymor pandemig COVID-19, a heriau byd-eang a chenedlaethol cynyddol fel newid hinsawdd, ansicrwydd economaidd a lledaeniad camwybodaeth.

Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym wedi parhau'n gadarn yn ein ffocws ar wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau. Mae ein gwaith wedi parhau i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys tlodi plant, tai, cyflogaeth a'r amgylcheddau y mae pobl yn byw ynddynt, gan gynorthwyo partneriaid ledled Cymru i gymryd camau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Rydym wedi cryfhau ein hymdrechion i hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol, gan gydnabod ei bwysigrwydd sylfaenol i ganlyniadau iechyd hirdymor. Drwy raglenni fel Hapus ac ehangu dulliau blynyddoedd cynnar ac ysgol gyfan, rydym wedi cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella llesiant a gwydnwch.

Mae ein gwaith i hyrwyddo ymddygiadau iach wedi parhau ar raddfa fawr, gan gyrraedd cannoedd o filoedd o bobl ledled

Cymru a dangos gwelliannau mesuradwy mewn meysydd fel rhoi'r gorau i ysmygu, pwysau iach a gweithgarwch corfforol. Ar yr un pryd, rydym wedi cryfhau ein cyfraniad at ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy, gan ymgorffori gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar drwy fframweithiau a rhaglenni cenedlaethol, sy'n cynnwys atal clefydau cardiofasgwlaidd ac atal diabetes ar raddfa fawr.

Mae darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwasanaethau diogelu iechyd, ein rhaglenni sgrinio a'n gwasanaethau clinigol wedi parhau i weithredu ar raddfa fawr, gan ymateb hefyd i feysydd heriol o ran perfformiad. Rydym wedi cymryd camau clir wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r materion hyn, cryfhau ansawdd a llywodraethu, a chynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol i bobl Cymru.

Rydym hefyd wedi parhau i gymryd camau i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd, gan gydnabod ei effaith sylweddol a chynyddol ar iechyd ac anghydraddoldebau. Drwy ymchwil, datblygu polisïau ac arweinyddiaeth systemau, rydym yn helpu i adeiladu dyfodol mwy gwydn a chynaliadwy i Gymru.

Ar draws yr holl waith hwn, mae ein swyddogaethau galluogi—ein galluoedd pobl, data a digidol, ein systemau llywodraethu a'n stiwardiaeth ariannol—wedi chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cyflawniad a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n dda ac sy'n perfformio'n dda.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym yn parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar gynyddu disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig. Bydd cyflawni'r uchelgais hon yn gofyn am gydweithio parhaus, arloesedd a chanolbwyntio'n ddiwyro ar waith ataliol, tegwch a newid hirdymor.

Hoffem ddiolch yn bersonol i'n holl bartneriaid sydd wedi gweithio gyda ni drwy gydol y flwyddyn, a'r holl aelodau o'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau sydd wedi cyfrannu at y gwaith a wnawn a'i lywio.

Yn olaf, hoffem ddiolch yn arbennig i bob un o'n pobl eithriadol ledled Iechyd Cyhoeddus Cymru, ein Tîm Gweithredol a'n Cyfarwyddwyr Anweithredol am eu gwaith caled, eu hangerdd a'u hymrwymiad diwyro drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Drwy eu holl ymrwymiad, proffesiynoldeb ac ymroddiad yr ydym wedi gallu cyflawni ein gwaith a gwneud gwahaniaeth i iechyd a llesiant pobl Cymru.

> **Mae ein gwaith i hyrwyddo ymddygiadau iach wedi parhau ar raddfa fawr, gan gyrraedd cannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru**



# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| | Rhagair | 2 |
| 1. | Cyflwyniad | 6 |
| 2. | Ein Cynllun Strategol | 12 |
| 3. | Blaenoriaeth Strategol Un: Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd | 18 |
| 4. | Blaenoriaeth Strategol Dau: Hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol | 24 |
| 5. | Blaenoriaeth Strategol Tri: Hyrwyddo ymddygiadau iach | 30 |
| 6. | Blaenoriaeth Strategol Pedwar: Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar | 36 |
| 7. | Blaenoriaeth Strategol Pump: Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth | 44 |
| 8. | Blaenoriaeth Strategol Chwech: Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd | 54 |
| 9. | Galluogi cyflawni ein Cynllun yn llwyddiannus | 62 |
| 10. | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 82 |
| 11. | Sylwadau i gloi | 90 |

01

# CYFLWYNIAD

01

# CYFLWYNIAD

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un eithriadol o brysur arall i'n sefydliad. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud wrth gyflawni ein blaenoriaethau strategol allweddol yn gamp fawr i'r sefydliad ac mae'n adlewyrchu gwaith ac ymroddiad eithriadol ein staff ochr yn ochr â'n partneriaid, yn ystod cyfnod hynod brysur a heriol yng Nghymru. Rydym wedi parhau i esblygu ac aeddfedu fel sefydliad i fod mor effeithiol â phosibl er mwyn cyflawni Cymru iachach a chynaliadwy.

> **Mae gan y rhan fwyaf o'r clefydau sy'n cynyddu'n sylweddol sbardunau allweddol cyffredin y gellir eu hatal, gan gynnwys: ysmygu, diet afiach, diffyg gweithgarwch corfforol ac yfed uchel ei risg.**

Rydym yn wynebu heriau sylweddol yng Nghymru, yn enwedig yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd llym a pharhaus. Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae pobl yng Nghymru yn mynd yn sâl neu'n marw'n rhy gynnar oherwydd bod y blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer iechyd da yn wan neu'n absennol yn ein cymunedau.

Rydym yn gwybod bod heriau iechyd y cyhoedd difrifol yn ein hwynebu o safbwynt cenedlaethol a byd-eang. Mae tensiynau geowleidyddol yn achosi ansicrwydd aruthrol ac yn cyflwyno risgiau mawr i'n cadwyni cyflenwi a'n heconomi. Yn ogystal, mae cynnydd camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn peryglu niweidio cydlyniant cymdeithasol a'r cynnydd a wnaed o ran gwelliannau craidd i iechyd y cyhoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig y nifer sy'n cael eu brechu, sydd yn ei dro'n peryglu gwaethygu anghydraddoldebau iechyd presennol.

Rydym yn cydnabod bod newid hinsawdd yn fygythiad mawr i iechyd yng Nghymru, gan arwain at effeithiau sy'n cwmpasu llesiant y boblogaeth, cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Mae Fforwm Economaidd y Byd yn graddio digwyddiadau tywydd eithafol fel y risg fyd-eang fwyaf difrifol dros y 10 mlynedd nesaf o flaen risgiau geowleidyddol a thechnolegol.




**300,000**

cynnwys dros 300,000 o bobl mewn rhaglenni pwysau iach

**33,000**

cefnogi dros 33,000 o ysmygwyr

**500,000**

Mae dros 500,000 o bobl wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn ein rhaglen sgrinio'r coluddyn

**170,000**

mae dros 170,000 o wahoddiadau sgrinio'r fron wedi cael eu cyhoeddi

**111,000**

mae dros 111,000 o apwyntiadau sgrinio llygaid diabetig wedi cael eu cynnig

Mae ein hamcanestyniadau ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy a nifer yr achosion o ganser yn dangos, os na fydd unrhyw beth yn newid, y bydd nifer yr achosion o'r rhain yn parhau i gynyddu dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r amcanestyniad hwn, ynghyd â heriau digynsail yn dilyn y pandemig COVID-19, yn effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant hirdymor, ynghyd ag achosi canlyniadau mwy dybryd ac uniongyrchol, gan gynnwys pwysau cynyddol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r materion hyn wedi arwain at ganlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach sydd wedi cael effaith anghyfartal ar draws ein cymdeithas ac wedi effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd eisoes yn wynebu'r anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mwyaf.

Mae gan y rhan fwyaf o'r clefydau sy'n cynyddu'n sylweddol sbardunau allweddol cyffredin y gellir eu hatal, gan gynnwys: ysmygu, diet afiach, diffyg gweithgarwch corfforol ac yfed uchel ei risg. Mae lefelau isel o lesiant meddwl yn effeithio'n uniongyrchol ar allu unigolion i ofalu amdanynt eu hunain a gall arwain at fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd fel strategaeth ymdopi. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen ymdrechion ar y cyd amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gennym gyfle, drwy wneud newid strategol ar draws y system i atal, i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac i harneisio'r cyfleoedd sydd ar gael i ni yng Nghymru. Ein bwriad yw sicrhau manteision yn y tymor byr, canolig a hir, gan gynnwys trawsnewid canlyniadau iechyd i'n poblogaeth, lleihau baich ariannol clefydau y gellir eu hatal ar iechyd a gofal cymdeithasol a chyflogaeth, atal y cynnydd mewn clefydau y gellir eu hatal a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd i sicrhau gwelliannau mesuradwy yn iechyd ein poblogaeth.



Crefftau yn y gynhadledd staff



> Mae gennym gyfle, drwy wneud newid strategol ar draws y system i atal, i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac i harneisio'r cyfleoedd sydd ar gael i ni yng Nghymru.

Yn ystod 2025-2026, fe wnaethom gyflawni gwaith atal ar raddfa fawr, gan gyrraedd cannoedd ar filoedd o bobl ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi dros 33,000 o ysmygwyr, cynnwys dros 300,000 o bobl mewn rhaglenni pwysau iach, a chyrraedd degau ar filoedd o blant a theuluoedd trwy ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar ac yn yr ysgol. Ar draws y rhaglenni hyn, rydym yn dangos effaith fesuradwy ar newid ymddygiad, canlyniadau iechyd a chynaliadwyedd systemau.

Mae ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol sy'n seiliedig ar y boblogaeth wedi parhau i ganfod clefydau'n gynnar, lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru. Mae dros 500,000 o bobl wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn ein rhaglen sgrinio'r coluddyn, mae dros 170,000 o wahoddiadau sgrinio'r fron wedi cael eu cyhoeddi ac mae dros 111,000 o apwyntiadau sgrinio llygaid diabetig wedi cael eu cynnig.

Fodd bynnag, rydym wedi wynebu her mewn perthynas â'n gwasanaeth Profi a Phostio Iechyd Rhywiol, yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth, diogelwch cleifion a materion diogelu. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatrys y methiannau a brofwyd a sicrhau y gallwn gynnal gwasanaeth diogel ac effeithiol.



Partneriaeth CGGC

Rydym wedi gweld y pŵer a'r effaith y gallwn ei chael pan fyddwn yn defnyddio ein hymdrechion a'n harbenigedd ar y cyd, gan gynnwys y gwelliannau y gellir eu gwireddu ar raddfa fawr drwy groesawu arloesedd, datblygiadau technolegol a'n hymrwymiad i gydweithio. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn parhau i ddarparu'r sbardun deddfwriaethol galluogol i'n galluogi i fabwysiadu dull ataliol hirdymor, gan ganolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd a chydweithio â'n partneriaid i ddarparu atebion integredig wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau y byddwn yn eu hwynebu heddiw ac y byddwn yn eu hwynebu yfory. Rydym hefyd yn cydnabod ein bod yn parhau i weithredu mewn amgylchedd anwadal a newidiol ac, felly, byddwn yn parhau i ddangos gallu i ymateb yn ddeinamig i fygythiadau a chyfleoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Wrth ddatblygu ein strategaeth, fe wnaethom ganolbwyntio ar ble gallwn ni, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, ychwanegu'r gwerth mwyaf i bobl Cymru. Rydym wedi gwneud hyn drwy gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol, y mae ein hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd yn eu hategu. Rydym wedi parhau i ddangos ffocws diysgog ar leihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau ein bod yn cyflawni'r gwerth a'r effaith fwyaf i'n poblogaeth er mwyn creu Cymru iach a chynaliadwy.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi gwaith y sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn cydnabod nad yw'n cyfleu popeth a gyflawnwyd gan ein pobl hynod ymroddedig ar draws holl swyddogaethau a gweithgareddau'r sefydliad.

02

# EIN CYNLLUN STRATEGOL

02

# EIN CYNLLUN STRATEGOL

Yn dilyn cymeradwyaeth ein Bwrdd, cyhoeddom ein Strategaeth Hirdymor – *Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Iachach, 2023-2035, ym mis Mai 2023*, sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni Cymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach, a lle mae gan bawb fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a llesiant da.

Mae'r strategaeth yn nodi ein chwe blaenoriaeth strategol ac yn mapio'n fanwl sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â phob blaenoriaeth, sef:

- Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
- Hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol
- Hyrwyddo ymddygiadau iach
- Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y boblogaeth
- Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd





Roedd ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2028 (a elwir hefyd yn Gynllun Tymor Canolig Integredig) yn amlinellu sut roeddem yn bwriadu cyflawni ein blaenoriaethau strategol allweddol, gan gynnwys ein pedair swyddogaeth statudol a'n gwasanaethau clinigol iechyd y cyhoedd craidd. Roedd hyn yn cynnwys cyflawni ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gwasanaeth heintiau, diogelu iechyd, data, gwybodaeth, ac ymchwil, yn ogystal â sut byddem yn parhau i ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y Deyrnas Unedig, gan gynnwys gweithredu canfyddiadau perthnasol sy'n ymwneud â ni.

**82%**

**882% o'n cerrig milltir cyflawni wedi'u cwblhau**

Cyflwynwyd ein Cynllun Strategol 2025-2028 i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Ar 30 Mehefin 2025, cawsom gadarnhad bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cymeradwyo ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2028. Nod ein cynllun oedd adeiladu ar y cynnydd a wnaethom ers i ni lansio ein Strategaeth Hirdymor yn 2023 sy'n mynd i'r afael â'r heriau iechyd y cyhoedd allweddol sy'n wynebu Cymru.

# Ein Blaenoriaethau 2023-2035




**Ni yw Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Rydym yn bodoli i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach, iachach.**

Ein gwerthoedd yw **gweithio gyda'n gilydd**, gydag **ymddiriedaeth a pharch** i **wneud gwahaniaeth**.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## 2.1 Cynnydd yn erbyn cyflawni ein cynllun

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, daeth ein Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2026 i ben ac, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd dros 82% o'n cerrig milltir cyflawni wedi'u cwblhau yn erbyn ein cynllun sylfaenol y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn cyfateb i gyflawni 202 o gerrig milltir o blith cyfanswm o 244 carreg filltir.

O'r 42 carreg filltir sy'n weddill (17%), y dywedwyd eu bod yn anghyflawn yn 2025-2026, caewyd pedair carreg filltir gan nad oedd eu hangen mwyach oherwydd ailgynllunio, ac ataliwyd 38 carreg filltir neu ni chwblhawyd hwy o fewn yr amserlenni penodedig. Symudwyd dyddiad cyflawni arfaethedig y rhan fwyaf o'r cerrig milltir hyn i'r flwyddyn ariannol nesaf a byddant yn rhan o'n cynllun ar gyfer 2026-2027. Yn aml, roedd oedi wrth gyflawni oherwydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth, gan gynnwys dibynnu ar weithgareddau y disgwyliwyd i sefydliadau eraill ymgymryd â nhw.

Mae ein cynnydd wrth gyflawni ein cerrig milltir yn cynrychioli'r llwyddiant wrth gwblhau blwyddyn tri o'n Strategaeth Hirdymor, a oedd yn gyflawniad sylweddol i'r sefydliad ac sy'n cynrychioli holl waith gwych ac ymroddiad ein staff yn ystod cyfnodau heriol iawn i wasanaethau cyhoeddus.

> **Mae ein cynnydd wrth gyflawni ein cerrig milltir yn cynrychioli'r llwyddiant wrth gwblhau blwyddyn tri o'n Strategaeth Hirdymor**

Adroddwyd ar gynnydd yn erbyn ein cynllun i'n Tîm Gweithredol a'n Bwrdd yn fisol trwy ein Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd ac Adroddiad Mewnwelediadau. Mae'r Adroddiad yn cynnwys y sgorau ar gyfer pob carreg filltir, adroddiad eithriadau ar gyfer y cerrig milltir lle y nodwyd problemau, a phroses reoli ar gyfer rheoli newidiadau yn gysylltiedig â chyflawni cerrig milltir gyda statws carreg filltir diwedd blwyddyn amcanol yn adrodd ar y gyfradd gwblhau. Rhoddwyd sicrwydd parhaus i Lywodraeth Cymru hefyd trwy ein cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig rheolaidd a'n Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus gydag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Chwefror 2026.

Mae rhagor o wybodaeth am ein meysydd blaenoriaeth a galluogi, gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn 2025-2026, ochr yn ochr â heriau allweddol a chyfleoedd i ddysgu, wedi'u nodi yn yr adran ganlynol.

## Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus

Ar 26 Chwefror 2026, fe wnaethom gymryd rhan yn rownd gyntaf y model cenedlaethol newydd ei gyflwyno ar gyfer cyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus gyda Llywodraeth Cymru, sy'n newid sylweddol mewn craffu ar berfformiad yn dilyn argymhellion gan y Grŵp Cynghori Gweinidogol Allanol ar Berfformiad a Chynhyrchiant y GIG.

Fe wnaethom gyflwyno pecyn gwybodaeth a sicrwydd ymlaen llaw yn ymdrin â darparu gwasanaethau, diogelu iechyd, gwella iechyd, cryfhau sefydliadol a materion lleol allweddol. Craffodd y sesiwn yn fanwl ar berfformiad, sicrwydd a chyflawni, gan roi llawer o sylw i'n digwyddiad profi a phostio iechyd rhywiol yn ystod 2025-2026 a'n gwasanaethau sgrinio cenedlaethol.





03

# BLAENORIAETH STRATEGOL UN: DYLANWADU AR BENDERFYNYDDION EHANGACH IECHYD

03

# BLAENORIAETH STRATEGOL UN: DYLANWADU AR BENDERFYNYDDION EHANGACH IECHYD

Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae pobl yng Nghymru yn mynd yn sâl neu'n marw'n rhy gynnar oherwydd diffyg y blociau adeiladu hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd da.

> **Mae ein gwaith ar benderfynyddion ehangach iechyd yn hanfodol i wella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.**

Mae'r blociau adeiladu hyn yn cynnwys ein haddysg a'n sgiliau, cartref cynnes a diogel, gwaith, arian ac adnoddau teg, mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy a chynaliadwy ac amgylcheddau ffisegol iach. Mae cael pethau'n iawn o'r cychwyn i blant Cymru yn creu sylfaen gref ar gyfer y dyfodol. Rydym am i fabanod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd fyw bywyd iachach a hirach, waeth beth fo'u cefndir.

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i ni weithio gyda phartneriaid ar draws y trydydd sector a'r sector cyhoeddus ehangach i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae ein gwaith ar benderfynyddion ehangach iechyd yn hanfodol i wella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn gweithio i gryfhau blociau adeiladu iechyd fel y gall pobl Cymru gael cyfle mwy cyfartal o fyw bywyd boddhaus, yn rhydd rhag afiechyd y gellir ei atal. Rydym yn cynyddu cefnogaeth i flociau adeiladu cryfach ar gyfer iechyd, yn creu polisi cyhoeddus gwell trwy lywio ac argymell newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ysgogi gweithredu cydgysylltiedig gyda phartneriaid ar gyfer canlyniadau gwell ar draws y system ac yn meithrin galluogrwydd ac alinio gweithredu a llifau gwybodaeth i alluogi newid cadarnhaol. Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 3.1 Yr hyn a gyflawnwyd gennym



Dros y 12 mis diwethaf (Ebrill 2025 – Mawrth 2026), fe wnaethom argymell, llywio ac ysgogi camau gweithredu i gryfhau blociau adeiladu iechyd a llesiant, yn enwedig i blant a theuluoedd, gan weithio ar draws ein sefydliad a chyda phartneriaid lleol a chenedlaethol. Mae ein camau gweithredu ar draws ein pedwar maes gwaith fel bod gan bobl ledled Cymru gyfle tecach i gael bywyd hir ac iach.

I gyfrannu at benderfyniadau iachach ar draws meysydd polisi pwysig:

- **Iechyd ym mhob polisi:** Rydym yn cefnogi'r broses o weithredu rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI) mewn ffordd gyson a chymesur sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth. Fe wnaethom ddatblygu canllawiau statudol a gwirfoddol ac rydym yn darparu hyfforddiant i uwchsgilio pobl mewn cyrff cyhoeddus y bydd angen iddynt gynnal AEI.
- Rydym wedi disgrifio pum blaenoriaeth polisi a all wneud y gwahaniaeth mwyaf i iechyd a llesiant yng Nghymru, gan gynnwys y dechrau gorau mewn bywyd, llesiant ariannol a lleoedd pob dydd iachach. Rydym yn datblygu ein swyddogaeth economeg llesiant i gefnogi newid tuag at system economaidd sy'n rhoi pobl a'r blaned wrth wraidd penderfyniadau polisi a buddsoddi.

I wneud y lleoedd rydyn ni'n byw ynddynt yn iachach:

- **Cartrefi iach:** Fe wnaethom ymgysylltu â'r sector gwirfoddol, byrddau iechyd, llywodraeth leol a chenedlaethol, landlordiaid cymdeithasol a phobl sydd â phrofiad bywyd ynglŷn ag anghenion systemau ar gyfer cartrefi iach. Rydym yn datblygu datrysiadau ymarferol, traws-bolisi ar gyfer iechyd a llesiant plant a theuluoedd i lywio'r strategaeth tai ac adfywio sydd ar ddod.
- **Lleoedd iachach:** Rydym wedi llywio cynllunio gofodol i ffurfio lleoedd a mannau iachach, gan gynnwys trwy ein digwyddiad cynllunio ac iechyd blynyddol. Rydym wedi cyhoeddi Canllaw Cynllunio Lleoedd Iach, i ymateb i geisiadau gan fyrddau iechyd a chynllunwyr. Rydym wedi cynghori ar asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn cynlluniau datblygu lleol, gan ffurfio cynlluniau datblygu lleol.


3Dimensions
HOLOGIC

I wella cyfleoedd bywyd pob dydd pobl:

- **Tlodi plant:** Gwnaethom argymhellion ar gyfer gwella cydweithio i fynd i'r afael â thlodi plant o dan Strategaeth Tlodi Plant Cymru a mapio ein cyfraniadau yn erbyn y strategaeth, fel bod ein blaenoriaethau'n cael eu llywio gan brofiadau bywyd a mewnwelediadau sy'n seiliedig ar ddata. Mae ein fframwaith gweithredu ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn disgrifio'r blociau adeiladu iechyd sy'n angenrheidiol ar gyfer y dechrau gorau mewn bywyd, a phwy sydd angen gweithredu.
- **Gwaith iach, diogel a theg:** Fe wnaethom ddatblygu ein cynnig cyflogwyr Cymru Iach ar Waith, gan gynnwys Cymorth Cynghorydd Gweithle 1:1, mentora gan gymheiriaid a gwefan. Mae ymchwil yn cael ei chynnal ynglŷn â chymorth gan y cyflogwr i weithwyr 16–24 oed, gyda phwyslais ar iechyd meddwl. Fe wnaethom lywio'r defnydd o gamau gweithredu safleoedd blaengar yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gwerth £10m drwy nodi ffyrdd sy'n seiliedig ar dystiolaeth o wella mynediad at gyflogaeth i'r rhai sydd ag iechyd gwael. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru ac eraill trwy gefnogi gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru.

I gryfhau'r amodau ar gyfer gweithredu hirdymor:

- **Datblygu galluogrwydd:** Rydym wedi meithrin galluogrwydd mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gymryd camau integredig ar benderfynyddion ehangach trwy gymhwyso dulliau meddwl trwy systemau fel rhan o'r Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru a ariennir gan y Sefydliad Iechyd. Mae canfyddiadau'r rhaglen wedi ysgogi Grŵp Cryfhau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Gweithredu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid.
- Rydym wedi cryfhau galluogrwydd y gweithlu, gyda dros 1,560 o ymarferwyr yn cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau a gweithgareddau dysgu Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau.
- Mae ein gwaith gyda Sefydliad Iechyd y Byd yn cefnogi gwybodaeth a pholisi trwy Lwyfan Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru ac wedi cyflwyno cyfnewidiadau Deialog Polisi lefel uchel i gefnogi Economi Llesiant gyda phartneriaid rhyngwladol.

**1,560**

**Rydym wedi cryfhau galluogrwydd y gweithlu, gyda dros 1,560 o ymarferwyr yn cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau a gweithgareddau dysgu Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau.**

## Astudiaeth Achos 1

### Dathlu 10 mlynedd o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gan fod 2025 yn nodi dengmlwyddiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cynhaliwyd wythnos o weithgareddau o 31 Mawrth i 4 Ebrill 2025, dan arweiniad yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd a'r tîm Cyfathrebu gyda chefnogaeth gan Grŵp Hyrwyddwyr y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd pob diwrnod o'r wythnos yn canolbwyntio ar y pum Ffordd o Weithio neu egwyddorion datblygu cynaliadwy: cydweithio, hirdymor, cynnwys, atal ac integreiddio, rhannu adnoddau, straeon ac astudiaethau achos yn myfyrio ar gynnydd a mewnwelediadau ar welliannau pellach.

Yn ystod yr wythnos honno, denodd y gyfres o bostiadau blog fwy na 1,200 o edrychiadau. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y cydweithwyr sy'n cofrestru ar gyfer hyfforddiant meddwl ar gyfer y dyfodol a chynnydd mewn ceisiadau am gymorth gan y tîm Ymgysylltu a Chyfranogiad, sy'n dangos diddordeb parhaus ar draws y sefydliad mewn cymhwyso'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i waith pob dydd.



04

# BLAENORIAETH STRATEGOL DAU: HYRWYDDO LLESIANT MEDDYLIOL A CHYMDEITHASOL

04

# BLAENORIAETH STRATEGOL DAU: HYRWYDDO LLESIANT MEDDYLIOL A CHYMDEITHASOL

Mae llesiant meddyliol a chymdeithasol yn ffurfio sylfeini iechyd gydol oes, gan ddylanwadu ar allu pobl i ffynnu, cynnal perthnasoedd iach, cymryd rhan yn eu cymunedau a rheoli heriau bywyd. Mae degawdau o dystiolaeth yn dangos bod gan lesiant meddyliol cadarnhaol gysylltiad cryf â chanlyniadau iechyd corfforol gwell, canlyniadau iechyd meddwl, llai o ymwneud ag ymddygiadau sy'n niweidio iechyd  a gwell gwydnwch yn wyneb adfyd.

Nid gwasanaethau yn unig sy'n creu llesiant; mae'n deillio o'r amodau y mae pobl yn byw ynddynt, gan gynnwys perthnasoedd cefnogol, cymunedau cydlynol ac amgylcheddau sy'n meithrin perthyn, diogelwch ac ymddiriedaeth. Mae profiadau cynnar – yn enwedig perthnasoedd anogol yn ystod babandod a phlentyndod – yn cael effeithiau dwys ar ddatblygiad meddyliol, rheoleiddio emosiynol a chanlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd.

> **Nid gwasanaethau yn unig sy'n creu llesiant; mae'n deillio o'r amodau y mae pobl yn byw ynddynt**

I'r gwrthwyneb, mae adfyd heb brofiadau amddiffynnol sy'n gwrthbwyso hynny yn cynyddu risg iechyd meddwl gwael yn sylweddol ar hyd oes. Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effeithiau parhaol ar fywyd fel oedolyn, yn enwedig pan fydd profiadau cadarnhaol ehangach a chefnogaeth gymdeithasol yn brin.



Mae un o bob tri oedolyn yng Nghymru yn profi llesiant meddyliol gwael ac mae dros un o bob pump yn profi problemau iechyd meddwl. Amcangyfrifir bod cost problemau iechyd meddwl yng Nghymru yn £4.8bn* o leiaf. Mae gwella llesiant meddyliol a chymdeithasol yn gwella ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd. Mae llesiant gwell yn gysylltiedig â risg is o gyflyrau iechyd meddwl, fel iselder a gorbryder a chyflyrau iechyd corfforol fel clefyd y galon a strôc.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 4.1 Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Mae ein gwaith ar y flaenoriaeth hon yn cyffwrdd â phob oed, o'r 1000 diwrnod cyntaf o fywyd, drwy'r ysgol ac oedran gweithio, i bobl hŷn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflawni rhaglen waith eang i gefnogi'r Cynllun Cyflawni Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd. Fe wnaethom gryfhau llesiant y blynyddoedd cynnar trwy gydgynhyrchu Dechrau Gorau mewn Bywyd: Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar cenedlaethol a meithrin ymgysylltiad cryf â'r system i ymgorffori camau gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Rydym wedi lansio cynllun croesawu bwydo ar y fron cenedlaethol ac wedi cyflawni prosiectau partneriaeth mewn meysydd blaenoriaeth i wella mynediad at gymorth bwydo ar y fron a chyfraddau bwydo ar y fron, gan gynorthwyo'r rhiant a'r plentyn i ffurfio cwlwm yn ogystal â chefnogi maeth.

**£4.6bn**

**Amcangyfrifir bod cost problemau iechyd meddwl yng Nghymru yn £4.8bn*.**

**100%**

**Fe wnaethom gynorthwyo ysgolion ledled Cymru i ymgorffori Dull Ysgol Gyfan tuag at Les Emosiynol a Meddyliol, gyda 100% o ysgolion uwchradd a 97% o'r holl ysgolion yn rhoi cynlluniau gweithredu ar waith, gan sicrhau bod llesiant yn cael ei ymgorffori fel sylfaen ar gyfer dysgu.**

Rydym wedi dwyn ynghyd ddata, tystiolaeth a lleisiau pobl ifanc i wella ein dealltwriaeth o anghenion iechyd meddwl babanod, plant a phobl ifanc a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar lefelau cynyddol o ofid ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r gwaith hwn a'n hymgysylltiad â phartneriaid y GIG a'r sector gwirfoddol a chymunedol ehangach yn helpu i ffurfio dulliau a llwybrau newydd ar gyfer cymorth. Fe wnaethom gynorthwyo ysgolion ledled Cymru i ymgorffori Dull Ysgol Gyfan tuag at Les Emosiynol a Meddyliol, gyda 100% o ysgolion uwchradd a 97% o'r holl ysgolion yn rhoi cynlluniau gweithredu ar waith, gan sicrhau bod llesiant yn cael ei ymgorffori fel sylfaen ar gyfer dysgu.

Mae'r rhaglen Hapus yn gweithio trwy rwydwaith cynyddol o dros 100 o sefydliadau partner ac mae'n dangos effaith ar ymddygiad, gyda 42% o bobl a ymgysylltodd â chynnwys Hapus yn adrodd iddynt gymryd camau i wella eu llesiant.

Yn ogystal, cyrhaeddodd rhaglenni ymgysylltu â'r gweithlu gynulleidfaoedd eang, gan gynnwys gweminarau gyda 90 o gynrychiolwyr cyflogwyr, yr oedd 94% ohonynt yn bwriadu cymryd camau gweithredu yn eu sefydliadau.

Rydym wedi ehangu cymorth i gyflogwyr i wella llesiant y gweithlu. Lansiwyd gwefan newydd Cymru Iach ar Waith, offeryn arolwg cyflogwyr, gwasanaeth cymorth cynghorwyr gweithle, rhaglen mentora gan gymheiriaid a phecyn cychwyn llesiant yn y gweithle. Fe wnaethom hefyd gwblhau adolygiad tystiolaeth ac ymgysylltu â gweithwyr 16-24 oed i ddeall eu hanghenion a'u profiadau er mwyn llywio arferion gwaith yn y dyfodol. Rydym wedi datblygu gwaith gyda phartneriaid ar atal trais, adfyd a dulliau sy'n ystyriol o drawma, gan gydnabod yr effaith ddifrifol y mae'r rhain yn ei chael ar lesiant meddyliol a chymdeithasol (gweler Astudiaeth Achos 2).

Roedd cysylltiad cymunedol yn parhau i fod yn thema ganolog, gyda gwaith i ddeall a chryfhau cysylltedd cymdeithasol, cynyddu ymgysylltiad â'r celfyddydau, diwylliant, natur, symud a gwirfoddoli trwy'r rhaglen Hapus a gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau cyhoeddus ac asedau cymunedol (gweler Astudiaeth Achos 3).

Mae'r gweithredu ar y cyd hwn yn creu'r amodau galluogi ar gyfer llesiant meddyliol a chymdeithasol cryfach ac yn tynnu sylw at ble mae angen dulliau dyfnach sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

## Astudiaeth Achos 2

### Datblygu Naratif Cyhoeddus ar gyfer Cymru sy'n Ystyriol o Drawma

Un o brif nodau cyflwyno Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, a arweinir ar y cyd gan ein Hyb ACE Cymru, yw ei fod yn ddull cymdeithas gyfan, sy'n cynnwys profiadau pobl ym mhob un o'n cymunedau yng Nghymru. Yn bwysicaf oll, mae'n ceisio ysbrydoli gweithredu ar y cyd i atal gofid. Mae gweithredu'r Fframwaith yn cael ei sbarduno gan ddull partneriaeth o gyd-gyflwyno gyda phartneriaid a chymunedau ledled Cymru. Mae'n cael ei arwain gan dystiolaeth gyda phwyslais eleni ar ddeall sut gall hiliaeth, stigma a chywilydd, labelu a chael eich trin yn wahanol fod yn drawmatig ar lefelau systemig, sefydliadol, cymunedol, ac unigol. Mae pobl a sefydliadau ledled Cymru wedi cyflwyno eu straeon i ni ac wedi rhannu eu dyheadau ynglŷn â'r hyn y mae Cymru sy'n ystyriol o drawma yn ei olygu iddyn nhw. O ganlyniad, mae ein hadnoddau a'n hyfforddiant wedi cael eu cryfhau i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom gyd-ddatblygu naratif cyhoeddus i gefnogi ymgysylltiad pellach ynghylch sut y gallwn ddod yn gymdeithas fwy caredig, empathig a thosturiol, a galwad i weithredu i feddwl am yr hyn y mae hynny'n ei olygu i'n holl gymunedau. Ym mis Chwefror 2026, yn dilyn rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu, gweithdai a digwyddiadau creadigol gyda phobl â phrofiad bywyd, cyhoeddwyd ein naratif cyhoeddus a'n ffilm 'Caredigrwydd - Adran Pawb' ar gyfer ein hymgyrch 'Amser i Fod yn Garedig'. Nod y ffilm yw ysbrydoli caredigrwydd a thosturi, meithrin ymdeimlad o berthyn, a gwrthweithio naratifau niweidiol, gan ymateb i'r cynnydd mewn camwybodaeth a rhethreg niweidiol ar draws cymdeithas. Cafodd ei ffrydio ar draws ITVX ac S4C ac fe gyrhaeddodd fwy o bobl na'r targed gydag adborth cadarnhaol iawn. Bydd hyn yn llywio gwaith pellach i'n helpu i gyrraedd y nod cyffredin o genedl sy'n ystyriol o drawma yng Nghymru.



## Astudiaeth Achos 3

### Hapus Programme

Er mwyn cryfhau gweithredu'r system ar hyrwyddo llesiant meddyliol a chymdeithasol, fe wnaethom sefydlu Hapus. Mae'r rhaglen hon yn dod ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd â 10 partner cenedlaethol ar draws y sectorau cymunedol, gweithgarwch corfforol, celfyddydau, treftadaeth a'r amgylchedd. Yn ogystal, mae rhwydwaith 'Cefnogwyr Hapus' wedi tyfu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda dros 100 o sefydliadau'n gweithio gyda chymunedau ac o fewn cymunedau i gefnogi llesiant. Rydym wedi darparu hyfforddiant i werthuso effeithiau ar lesiant meddyliol, wedi darparu canllawiau ar arfer gorau wrth gyflwyno gweithgareddau cymunedol cynhwysol sy'n hyrwyddo llesiant ac wedi cefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol i wneud cais am gyllid allanol i dyfu eu cynnig yng Nghymru. Mae gwerthusiad cynnar yn dangos effaith glir: adroddodd 59% o'r bobl a ymgysylltodd â chynnwys Hapus eu bod wedi cymryd camau i wella eu llesiant o'r rheini trafododd 59% eu llesiant gydag eraill ac ailymgysylltodd 55% â gweithgareddau sy'n cefnogi eu hiechyd meddwl. Mae hyn yn dangos yn glir gallu'r rhaglen i ddylanwadu ar ymddygiadau llesiant ar raddfa fawr.

Trwy rannu tystiolaeth, arferion gorau a datblygu camau cydweithredol, mae Hapus yn meithrin capasiti, galluogrwydd a chyfleoedd ledled Cymru.

Yn ogystal, mae 'Sgwrs Genedlaethol Hapus' yn darparu gwybodaeth gyhoeddus i lywio ac ysbrydoli gweithredu unigol a chymunedol ac yn annog y cyhoedd i ddeall newidiadau mewn canfyddiadau, camau gweithredu a chanlyniadau. Mae gwerthusiad cynnar o 'Sgwrs Genedlaethol Hapus' yn dangos bod pobl sy'n ymgysylltu â chynnwys Hapus, fel postiadau cyfryngau cymdeithasol neu 'offer llesiant', wedi cymryd camau gweithredu er mwyn eu llesiant. Mae gwaith yn parhau i gynyddu cyrhaeddiad yr ymgyrch ledled Cymru a chyda phoblogaethau blaenoriaeth.

At hynny, mae Hapus yn dylanwadu ar newid yn y system cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant, gyda symudiad tuag at fodelau gofal sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac ymgorffori camau gweithredu ar lesiant mewn llwybrau ymyrraeth gynnar ac adfer.



05

# BLAENORIAETH STRATEGOL TRI: HYRWYDDO YMDDYGIADAU IACH

05

# BLAENORIAETH STRATEGOL TRI: HYRWYDDO YMDDYGIADAU IACH

Mae ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd – fel ysmygu, gweithgarwch corfforol, deiet, defnyddio alcohol a defnyddio sylweddau – ymhlith y cyfranwyr mwyaf arwyddocaol at salwch y gellir ei atal, anabledd a marwolaethau cynnar yng Nghymru. Mae risgiau ymddygiadol yn cynrychioli chwarter y baich clefydau cyffredinol, gan sbarduno cyflyrau fel canser, clefyd cardiofasgwlaidd a salwch anadlol.

> **Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i greu amodau lle mae dewisiadau iach yn rhwydd, yn cael eu cefnogi ac yn cael eu hatgyfnerthu'n gymdeithasol.**

Fodd bynnag, nid yw'r ymddygiadau hyn yn digwydd ar wahân: maen nhw'n cael eu ffurfio gan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd pobl, eu llesiant meddyliol, a'r amgylcheddau masnachol sy'n hyrwyddo nwyddau afiach.

Mae ein dull yn cydnabod y graddiant economaidd-gymdeithasol cryf mewn ymddygiadau iechyd, gyda lefelau uwch o ysmygu, anweithgarwch a phwysau afiach wedi'u crynhoi mewn cymunedau sy'n wynebu pwysau ariannol, tai ansicr a mynediad cyfyngedig at amgylcheddau cefnogol. Felly, mae hyrwyddo ymddygiadau iach yn gofyn am weithredu ar draws systemau a chymunedau – nid yn unig cefnogi unigolion ond ffurfio amgylcheddau, lleihau dylanwadau masnachol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chryfhau llesiant meddyliol.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i greu amodau lle mae dewisiadau iach yn rhwydd, yn cael eu cefnogi ac yn cael eu hatgyfnerthu'n gymdeithasol. Mae dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn rhan greiddiol o'r gwaith hwn, gan ddefnyddio asedau lleol, lleihau rhwystrau rhag cyfranogi a theilwra ymyriadau i gyd-destunau diwylliannol, ieithyddol a chymdeithasol.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 5.1 Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom gyflwyno rhaglenni atal ar raddfa genedlaethol, gan weithio gyda phartneriaid lleol. Fe wnaethom gyrraedd cannoedd ar filoedd o bobl ledled Cymru a chyflawni newid mesuradwy mewn ymddygiad.

- Defnyddiodd dros 33,000 o bobl wasanaethau Helpa Fi i Stopio, gan gyfrannu at leihau cyfraddau ysmygu i tua 10-11.4%, sef yr isaf erioed. Y llynedd, gweithiodd y rhaglen gyda mwy na 17,000 o ysmygwyr, gyda dros 8,000 o bobl yn rhoi'r gorau i ysmygu, sy'n gyfystyr â chynorthwyo 1 o bob 31 o ysmygwyr yng Nghymru i roi'r gorau iddi.

- Fe wnaethom gynorthwyo dros 300,000 o bobl trwy Bwysau Iach, Byw'n Iach, gyda 130,000 yn cwblhau asesiadau a 63% yn dweud ei fod wedi eu helpu i reoli eu pwysau.

- Derbyniodd ein Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff 32,079 o atgyfeiriadau, gyda 17,477 o bobl yn dechrau rhaglenni a 9,332 yn cwblhau, sy'n dangos ymgysylltiad parhaus mewn newid ymddygiad â chymorth.



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom gynyddu atgyfeiriadau i wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, gwella rhaglenni mewn ysbytai a lansio ymgyrchoedd newydd i helpu pobl sy'n ysmygu ac yn fepio i roi'r gorau iddi. Mae atgyfeiriadau i'r rhaglen Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty wedi mwy na threblu, o 3,330 i 10,574 mewn dwy flynedd, trwy ymgorffori adnabod ac atgyfeirio ysmygu mewn gofal ysbyty arferol a chyrraedd y mwyafrif helaeth o gleifion a dderbynnir yn ogystal â chyrraedd ysmygwyr sy'n feichiog. Mae 89% o dderbyniadau i'r ysbyty bellach yn cofnodi statws ysmygu, sy'n galluogi camau gweithredu i helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu a gwella eu hiechyd.

Rydym yn cyflawni effaith trwy fodel cenedlaethol-lleol cydlynol, sy'n darparu arweinyddiaeth, canolfannau cydlynu, llwybrau, tystiolaeth, rhaglenni cenedlaethol ac, yn aml, cyllid trwy Lywodraeth Cymru tra bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid yn darparu gwasanaethau ar lawr gwlad, gan gyfuno cysondeb cenedlaethol â darpariaeth wedi'i theilwra'n lleol ar raddfa fawr. Mae llwyddiannau'n cynnwys hysbysebu iach yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan ddod ag awdurdodau lleol, y GIG a phartneriaethau rhanbarthol ynghyd i ail-lunio'r amgylchedd bwyd a hysbysebu yn unol â pholisi atal ac anghydraddoldebau cenedlaethol.

> **Fe wnaethom hyrwyddo darparu Pwysau Iach, Cymru Iach trwy welliannau i'r amgylchedd bwyd, hyrwyddo bwydo ar y fron, maeth yn y blynyddoedd cynnar a chyfyngiadau lleol ar hysbysebu bwyd afiach.**

Fe wnaethom hyrwyddo darparu Pwysau Iach, Cymru Iach trwy welliannau i'r amgylchedd bwyd, hyrwyddo bwydo ar y fron, maeth yn y blynyddoedd cynnar a chyfyngiadau lleol ar hysbysebu bwyd afiach. Fe wnaethom hefyd ehangu gwaith i hyrwyddo gweithgarwch corfforol trwy ymyriadau mewn ysgolion, ymgyrchoedd symud cenedlaethol a modelau wedi'u seilio ar leoedd sy'n integreiddio newidiadau i seilwaith lleol.

Mae ein rhaglenni pwysau iach digidol a chymunedol yn cyflawni cyrhaeddiad ac effaith fesuradwy. Mae'r platfform Pwysau Iach, Byw'n Iach wedi cyrraedd dros 300,000 o ddefnyddwyr, gyda chyfradd ymgysylltu 80%, sy'n rhagori ar ein targed o 75%. Cyrhaeddodd cynlluniau peilot cymunedol PIPYN (Pwysau Iach Plant yng Nghymru) ar gyfer y blynyddoedd cynnar dros 3,000 o deuluoedd, gyda gwelliannau mesuradwy: yng Nghaerdydd, roedd 35% o'r oedolion mewn teuluoedd a gymerodd ran wedi gostwng eu BMI, ac ym Merthyr cyflawnodd 40% ostyngiad yn eu BMI ar ôl yr ymyrraeth, ochr yn ochr â chynnydd parhaus mewn gweithgarwch corfforol.

Mae cyfraddau bwydo ar y fron yn parhau i wella, gyda 64% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron ar adeg eu geni, 44% ar ôl 6 wythnos a 32% ar ôl 6 mis, sy'n cynrychioli cynnydd parhaus dros bum mlynedd.

Gan fod 48% o oedolion yn cymryd rhan mewn gamblo, gan gynnwys 4.2% sydd â phroblem gamblo a 6% sydd mewn perygl cymedrol, mae niwed gamblo yng Nghymru yn sylweddol, ac fe arweiniodd at ddatblygu system atal genedlaethol. Gwnaeth ein rhaglen atal niwed gamblo genedlaethol gynnydd sylweddol, gydag adnoddau pwrpasol ar gyfer ysgolion, mewnwelediadau ar lefel y boblogaeth ac offer cymorth digidol. Fe wnaethom gaffael meddalwedd a fydd yn galluogi pob unigolyn yng Nghymru sy'n ceisio cymorth ar gyfer niwed gamblo i rwystro gwefannau ac apiau gamblo (yn rhad ac am ddim) fel rhan o'u taith adfer. Mae hyn bellach yn cael ei gyflwyno gan wasanaethau cymorth triniaeth. Mae rhaglenni iechyd y geg yn parhau i ddarparu ataliaeth ar lefel y boblogaeth trwy'r rhaglen Cynllun Gwên, gyda dros 60,000 o blant yn cymryd rhan mewn rhaglenni brwsio dannedd dan oruchwyliaeth, sy'n cyfrannu at ostyngiad hirdymor mewn pydredd dannedd yng Nghymru o 47.6% i 32.4% ymhlith plant Blwyddyn 1.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn dangos eu bod yn cyrraedd y boblogaeth yn barhaus, ac yn cyflawni newid mesuradwy i ymddygiad a chanlyniadau teg, gyda chyfraddau rhoi'r gorau iddi a mynediad at wasanaethau'n debyg ar draws grwpiau amddifadedd a demograffig.




**300,000**

Fe wnaethom gynorthwyo dros 300,000 o bobl trwy Bwysau Iach

**64%**

Mae cyfraddau bwydo ar y fron yn parhau i wella, gyda 64% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron ar adeg eu geni

**Astudiaeth Achos 4**

## Lansio Ymgyrch Atal Ysmygu

Ysmygu yw prif achos marwolaeth y gellir ei atal yng Nghymru, gan achosi tua 3,845 o farwolaethau bob blwyddyn, gyda dros un o bob deg o farwolaethau ymhlith pobl 35 oed a hŷn ac anghydraddoldebau iechyd sylweddol, gan fod cyfraddau marwolaethau deirgwaith yn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae cryn dipyn o waith iechyd y cyhoedd wedi lleihau cyfraddau ysmygu. Dangosodd yr Arolwg Cenedlaethol diweddaraf fod cyffredinrwydd ysmygu wedi gostwng i 10%. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at y ffaith bod gan Gymru y gyfradd ysmygu isaf erioed bellach, sy'n adlewyrchu cynnydd parhaus ar draws y system wrth leihau'r defnydd o dybaco ar draws y boblogaeth.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, fe wnaethom lansio ymgyrch atal ysmygu newydd sy'n targedu pobl 16–24 oed gyda negeseuon a ddatblygwyd gan ddefnyddio mewnwelediadau ymchwil gyda'r grŵp oedran hwn ac a brofwyd gyda grwpiau ffocws. Mae data'n dangos mai'r cyfnod mwyaf peryglus ar gyfer dechrau ysmygu a sefydlu arferion ysmygu gydol oes yw rhwng 25 a 34 oed. Nod yr ymgyrch hon oedd targedu pobl ifanc cyn iddynt gyrraedd 25 oed er mwyn atal hyn rhag digwydd.

Mae wedi cynnwys gweithio'n agos gyda dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon dilys, yn eu lleisiau a'u geiriau eu hunain, ar sianeli perthnasol ar gyfer y grŵp oedran hwn gan gynnwys TikTok, Snapchat, Meta/Instagram a YouTube. Mae gan y ddau ddylanwadwr nifer fawr o ddilynwyr yng Nghymru. Mae Roseanne yn darparu cynnwys dwyieithog ar fyw'n iach a gwerth treulio amser mewn natur ac mae Lloyd yn manteisio ar bwysigrwydd gofalu am eich corff i gymryd rhan mewn chwaraeon ar eich gorau, yn ei achos ef fel chwaraewr rygbi.

Roedd yr ymgyrch, a lansiwyd ar 12 Ionawr 2026, yn darparu dolenni i'r wefan Helpa Fi i Stopio ac yn cael ei chefnogi gan hysbysebion taledig ar sianeli allweddol. Yn ystod pythefnos cyntaf yr ymgyrch:

Cynhyrchodd yr ymgyrch 3.9 miliwn o argraffiadau ar gyfryngau cymdeithasol a 6,183 o gliciau ar y wefan Helpa Fi i Stopio.

- Roedd yn cyfrif am 23% o holl ymweliadau â'r wefan Helpa Fi i Stopio yn ystod cyfnod yr ymgyrch.
- Edrychodd 43% o'r ymwelwyr ar y dudalen "Sut i roi'r gorau i fepio", sy'n dangos diddordeb cryf mewn cymorth yn ymwneud â fepio.
- TikTok a Snapchat a gyflawnodd yr ymgysylltiad uchaf (4,728 o gliciau), tra bod Meta wedi cynhyrchu'r cyrhaeddiad mwyaf (bron 1.4 miliwn o argraffiadau).
- Roedd cynnwys digymell dylanwadwyr wedi gwneud yn dda: Gwelwyd postiadau Roseanne gan fwy na 30,000 o bobl ac roedd 1,300 wedi'u 'hoffi', gan gynhyrchu sgyrsiau cryfach a oedd yn berthnasol i'r ymgyrch, tra bod mwy na 34,000 o bobl wedi gweld cynnwys Lloyd gyda thua 3,000 yn ei 'hoffi'.

Mae'r ymgyrch yn parhau eleni i gefnogi gwaith ar y cyd a gynlluniwyd gyda'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch i atal ysmygu – a chefnogi rhoi'r gorau i fepio – ymhlith y grŵp oedran hwn.

06

# BLAENORIAETH STRATEGOL PEDWAR: CEFNOGI DATBLYGU SYSTEM IECHYD A GOFAL GYNALIADWY SY'N CANOLBWYNTIO AR ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR

06

# BLAENORIAETH STRATEGOL PEDWAR: CEFNOGI DATBLYGU SYSTEM IECHYD A GOFAL GYNALIADWY SY'N CANOLBWYNTIO AR ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR

Mae system iechyd a gofal gynaliadwy yn un sy'n atal salwch lle bynnag y bo modd, yn nodi risg yn gynnar, yn ymyrryd yn gyflym, ac yn cynorthwyo pobl i fyw'n dda gyda chyflyrau hirdymor. Felly, mae atal ac ymyrraeth gynnar yn hanfodol nid yn unig i iechyd y boblogaeth ond hefyd i gynaliadwyedd y system, gan leihau'r galw y gellir ei osgoi a sicrhau bod y GIG yn gallu bodloni anghenion y presennol a'r dyfodol.

> **Mae Cymru yn wynebu pwysau cynyddol oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, lefelau cynyddol o glefydau cronig, anghydraddoldebau iechyd parhaus ac effeithiau hirdymor y pandemig.**

Mae gofal sylfaenol wrth wraidd yr uchelgais hon, gan ddarparu'r pwynt cyswllt cyntaf i'r rhan fwyaf o bobl a'r cyfle gorau i atal clefydau a lleihau anghydraddoldebau.

Mae Cymru yn wynebu pwysau cynyddol oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, lefelau cynyddol o glefydau cronig, anghydraddoldebau iechyd parhaus ac effeithiau hirdymor y pandemig. Mae'r heriau hyn yn gofyn am newid cydlynol i'r system, gan ymgorffori atal mewn llwybrau clinigol, cryfhau modelau gofal cymunedol, a chynorthwyo timau amlddisgyblaethol i ddarparu gwasanaethau teg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydym yn cyflawni rôl genedlaethol wrth ffurfio'r trawsnewidiad hwn – gan ddarparu tystiolaeth, offer, fframweithiau, data, gwerthuso ac arweinyddiaeth i sicrhau bod atal yn cael ei ymgorffori'n systematig ar draws y GIG ac yn cyd-fynd â dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Ein nod yw creu system iechyd a gofal sy'n rhagweithiol, yn deg, yn amgylcheddol gynaliadwy ac wedi'i gwreiddio mewn anghenion a chryfderau cymunedau.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 6.1 Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Eleni, gwnaethom gynnydd sylweddol wrth ymgorffori atal a chryfhau galluogrwydd y system.

Ar draws rhaglenni atal, rydym yn cyflawni effaith fesuradwy ar systemau.

Fe wnaethom lansio'r Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd cenedlaethol, ACBD+, gan ddangos y potensial i atal dros 1,000 o drawiadau ar y galon a strôcs trwy reoli risg yn well. Trwy hyn, rydym eisoes wedi cynorthwyo contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i drin 30,687 o gleifion ychwanegol i dargedu lefelau pwysedd gwaed ac ehangu mynediad at ymyriadau ataliol ar draws cymunedau yng Nghymru a chynnydd o 30,085 o gleifion ar y gofrestr orbwysedd genedlaethol. Bydd hyn yn atal trawiadau ar y galon, strôcs a marwolaethau, a bydd yn rhyddhau amser ysbytai.

Fe wnaethom gynhyrchu a lledaenu offer allweddol ar gyfer y saernïaeth genedlaethol sy'n ofynnol i atal anghydraddoldebau a chymryd camau i'w lleihau, gan gynnwys Fframwaith Gofal Iechyd y Cyhoedd Cymru, y Fframwaith Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal, a Theg i Bawb: Gweithredu Teg i Bawb, sy'n rhoi dull unedig i'r GIG gynllunio ar lefel y boblogaeth, nodi risgiau'n gynharach, a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar degwch.

Mae Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan bellach yn cyflawni ar raddfa fawr, gan gyrraedd dros 20,000 o bobl eisoes ar draws 51 o 60 clwstwr gofal sylfaenol, ac mae modelu'n awgrymu y gellid atal tua 4,600 o achosion o ddiabetes Math 2. Cadarnhaodd ein Gwerthusiad o'r Rhaglen ei heffeithiolrwydd wrth leihau dilyniant i ddiabetes math 2 gan bron chwarter (23%), sy'n golygu ei bod yn rhaglen atal effaith uchel. Rydym wedi cefnogi a helpu i osod y sylfeini ar gyfer y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn genedlaethol, gan ail-lunio sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu ledled Cymru i helpu pobl i aros yn iach yn eu cymunedau, cael mynediad at ofal yn haws, a mynd i'r ysbyty dim ond pan fo'n wirioneddol angenrheidiol.




**20,000**

**Mae Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan bellach yn cyflawni ar raddfa fawr, gan gyrraedd dros 20,000 o bobl eisoes ar draws 51 o 60 clwstwr gofal sylfaenol**

> **Fe wnaethom gyhoeddi Dull Iechyd y Cyhoedd at Gofal Sylfaenol a Chymunedol erbyn 2035 sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yng Nghymru erbyn 2035.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym eisoes wedi gosod sylfeini cryf trwy gyhoeddi fframweithiau atal cenedlaethol a sbarduno dulliau rheoli iechyd y boblogaeth, gan lywio ffrwd waith atal y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn a chynorthwyo clystyrau a Byrddau Iechyd i ddefnyddio tystiolaeth a data i ailgynllunio llwybrau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Fe wnaethom gyhoeddi Dull Iechyd y Cyhoedd at Gofal Sylfaenol a Chymunedol erbyn 2035 sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yng Nghymru erbyn 2035. Ymgorffori egwyddorion megis atal, tegwch, cynaliadwyedd, a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, er mwyn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio'n dda a chreu Cymru decach, gwyrddach ac iachach.

Fe wnaethom arwain y gwerthusiad cenedlaethol o Fodel Gofal Sylfaenol Cymru (PCMW) sy'n cynnwys Hunanfyfyrio fel Clwstwr, Adolygu Clwstwr gan Gymheiriaid, Grwpiau Ffocws ac arweinyddiaeth system i ddatblygu Dangosyddion Allweddol PCMW. Mae canfyddiadau hyn wedi'u hymgorffori mewn adroddiad Triongli Gwerthuso PCMW sydd bellach yn cael ei ddefnyddio gan y system ochr yn ochr â'n hadroddiad 2035 i gryfhau gwaith clwstwr a gweithredu PCMW ac i lywio'r Rhaglen Drawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn.

Fe wnaethom ddatblygu gwaith ar iechyd menywod, gan gyhoeddi modiwl e-ddysgu atal cenhedlu ar ôl beichiogrwydd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd, iechyd cyhyrysgerbydol, presgripsiynu cymdeithasol, llesiant ariannol ac anghydraddoldebau iechyd, a gwnaethom gefnogi gofal sylfaenol trwy raglenni hyfforddi newydd, offer iechyd y boblogaeth a systemau data integredig. Fe wnaethom hefyd gyfrannu at ddiwygio'r system ddeintyddol, cynaliadwyedd amgylcheddol a mentrau gofal sylfaenol gwyrddach, a datblygu dulliau economeg llesiant i arwain penderfyniadau buddsoddi.

Mae'r gwaith cyfunol hwn wedi cryfhau'r sylfeini ar gyfer system iechyd a gofal deg a chynaliadwy sy'n cael ei harwain gan atal.

## Astudiaeth Achos 5

### Cynllun Atal Clefydau Cardiofasgwlaidd Newydd

Lansiwyd ein Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd newydd ym mis Medi 2025. Os caiff y cynllun hwn ei weithredu'n llawn, fe allai atal pobl rhag cael mwy na 1,000 o drawiadau ar y galon a strôcs, gan gael effaith sylweddol ar ganlyniadau ac ansawdd bywyd cleifion yn ogystal ag arbed £18 miliwn i'r GIG a'r sectorau gofal cymdeithasol yng Nghymru dros dair blynedd. Mae'r cynllun newydd, o'r enw Dull ABCD Plws, yn ceisio dod â phrofiad llwyddiannus o wledydd eraill i Gymru. Mae hyn yn adeiladu ar welliannau ehangach i'r system, gan gynnwys trin dros 30,000 o bobl ychwanegol i dargedu lefelau pwysedd gwaed yn 2025–26, sy'n dangos darparu gwasanaethau atal ar raddfa fawr yn y byd go iawn.









**1,000**

Fe wnaethom lansio’r Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd cenedlaethol, ACBD+, gan ddangos y potensial i atal dros 1,000 o drawiadau ar y galon a strôcs trwy reoli risg yn well.

## Astudiaeth Achos 6

### Rhoi pobl wrth wraidd gofal diabetes: ymgysylltu â dinasyddion yn y Rhaglen Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd

Ledled Cymru, mae mwy na 220,000 o bobl yn byw gyda diabetes, sy'n tynnu sylw at raddfa'r effaith y bwriedir i'r gwaith hwn ddylanwadu arni, ac mae'r niferoedd yn cynyddu.

Mae pob unigolyn sydd â diabetes yn treulio dros 8,700 awr bob blwyddyn yn rheoli eu cyflwr y tu allan i leoliadau clinigol. Gall hyn amharu ar fywydau a chyflogaeth, gan fod pobl yn gwneud tua 180 o benderfyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd bob dydd. Addysg a grymuso cynnar yw'r offeryn mwyaf pwerus ar gyfer hyrwyddo hunanreolaeth a chanlyniadau gwell. Mae cyflawni'r newid sylweddol sy'n angenrheidiol i arafu'r duedd honno a gwella bywydau yn gofyn am fwy na phrofiad clinigol - mae'n gofyn am wrando o ddifrif ar y bobl y mae'r system wedi'i chynllunio i'w gwasanaethu. Eleni, dyna'n union beth mae'r rhaglen Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd wedi'i wneud, gan ymgorffori ymgysylltu â chleifion a dinasyddion ym mhob cam o'i gwaith mewn ffordd sy'n wirioneddol unigryw o fewn y system ddiabetes yng Nghymru.

Sefydlodd y rhaglen fodel o ymgysylltu parhaus, strwythuredig â phobl sy'n byw gyda diabetes - nid fel ymgynghoriad untro, ond fel dolen adborth barhaus sy'n llywio, cyfeirio a helpu i werthuso ein gwaith mewn amser real. Dechreuodd hyn gydag ymweliadau wyneb yn wyneb â grwpiau cymorth gan gymheiriaid ledled Cymru, gan feithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd â chymunedau cyn gofyn am unrhyw beth ganddynt. O'r sylfaen hon, datblygodd y rhaglen gyfres o ddigwyddiadau arloesi - Hacathonau - gan ddod â phobl sy'n byw gyda diabetes, clinigwyr a phartneriaid y system ynghyd i amlygu problemau a dod o hyd i atebion gyda'i gilydd. Cynhaliwyd y digwyddiadau arobryn yng Ngogledd a De Cymru, gan ddod â mwy na 140 o bobl ynghyd i helpu i lunio gofal gwell i bawb. Gwnaed ymdrech fwriadol i gynnwys lleisiau sydd ar goll yn rhy aml o ddylunio gwasanaethau, a buddsoddodd y tîm ymgysylltu lawer o amser un-i-un yn cynorthwyo cyfranogwyr o gefndiroedd difreintiedig i fynychu a chyfrannu, gan gydnabod bod rhaid i ymgysylltu ystyrlon gael gwared ar rwystrau'n weithredol, nid dim ond agor drws.

> Mae pob unigolyn sydd â diabetes yn treulio dros 8,700 awr bob blwyddyn yn rheoli eu cyflwr y tu allan i leoliadau clinigol.

> Roedd ein gweithgareddau ymgysylltu eisoes yn cynnwys cannoedd o gyfranogwyr yn uniongyrchol. Ond mae'r allbynnau wedi'u cynllunio i ddylanwadu ar ofal a chanlyniadau ar gyfer dros 220,000 o bobl sy'n byw gyda diabetes yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn, mae'r rhaglen wedi cynnal cylchlythyr rheolaidd i roi gwybod i'r cyfranogwyr am y newidiadau y mae eu cyfraniadau wedi'u hysgogi, gan gau'r ddolen adborth a meithrin atebolrwydd gwirioneddol i'r cymunedau dan sylw. Ategir hyn gan fewnwelediad cyhoeddus ehangach trwy ein panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus, sydd wedi darparu data ar lefel y boblogaeth am agweddau at Ddiabetes Math 2 i lywio cyfeiriad y rhaglen.

Mae'r ymrwymiad hwn i wrando wedi cynhyrchu allbynnau clir ar lefel system. Roedd arolygon cleifion yn cynnwys 57 o bobl sy'n byw gyda Diabetes Math 2, grwpiau ffocws gyda 23 o gyfranogwyr, ac ymgynghoriad â 32 o glinigwyr wedi ffurfio dyluniad y pecynnau Pwynt Diagnosis newydd yn uniongyrchol - dau adnodd cyflenwol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion sydd newydd gael diagnosis, wedi'u datblygu a'u profi gyda'r bobl a fydd yn eu defnyddio. Dywedodd cleifion wrthym yn glir beth oedd arnynt ei angen: Roedd 90% eisiau canllawiau ymarferol ar fwyd, roedd 88% eisiau deall eu hapwyntiadau a'u gwiriadau iechyd a disgrifiodd 67% deimladau o gywilydd neu euogrwydd adeg y diagnosis. Mae pob un o'r mewnwelediadau hynny bellach wedi'u hymgorffori yn y ffordd y mae'r pecynnau'n edrych, yn teimlo ac yn cyfathrebu.

Roedd ein gweithgareddau ymgysylltu eisoes yn cynnwys cannoedd o gyfranogwyr yn uniongyrchol. Ond mae'r allbynnau wedi'u cynllunio i ddylanwadu ar ofal a chanlyniadau ar gyfer dros 220,000 o bobl sy'n byw gyda diabetes yng Nghymru.

Mae'r ymgysylltiad â chleifion hefyd wedi llywio'r broses o ailgynllunio tudalennau gwe diabetes GIG Cymru, ymchwil ymddygiadol ynglŷn â rhwystrau rhag hunanreoli a datblygu fframwaith cyfathrebu wedi'i lywio gan ymddygiad i arwain yr holl gyfathrebiadau diabetes yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn cefnogi'n uniongyrchol ein blaenoriaeth strategol o gefnogi system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Trwy fuddsoddi mewn ymgysylltiad cynnar o ansawdd uchel ar adeg y diagnosis a thu hwnt, mae'r rhaglen yn helpu i adeiladu'r sylfeini ar gyfer hunanreolaeth well, llai o gymhlethdodau a system y mae pobl yn ymddiried ynddi ac yn dewis ymgysylltu â hi. Mae ymgysylltu â chleifion i raddau mor ddwys a chyson â hyn yn anghyffredin ym maes diabetes, ac mae'r rhaglen Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd wedi dangos sut olwg sydd ar roi dinasyddion wrth wraidd newid mewn gwirionedd.

07

# BLAENORIAETH STRATEGOL PUMP: DARPARU GWASANAETHAU IECHYD Y CYHOEDD RHAGOROL I AMDDIFFYN Y CYHOEDD A SICRHAU'R CANLYNIADAU GORAU POSIBL O RAN IECHYD Y BOBLOGAETH

07

# BLAENORIAETH STRATEGOL PUMP: DARPARU GWASANAETHAU IECHYD Y CYHOEDD RHAGOROL I AMDDIFFYN Y CYHOEDD A SICRHAU'R CANLYNIADAU GORAU POSIBL O RAN IECHYD Y BOBLOGAETH

Mae amddiffyn y cyhoedd rhag effeithiau heintiau ac amlygiad i niwed amgylcheddol, fel llygredd aer, a chyflwyno ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol yn gyfrifoldebau craidd i'n sefydliad.

Fel ymatebydd Categori 1 y Ddeddf Argyfyngau Sifil, rydym yn cydweithio ag eraill i ddiogelu'r cyhoedd rhag clefydau heintus difrifol a risgiau amgylcheddol trwy gynllunio at argyfyngau, parodrwydd, a chamau ymateb cadarn. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a all godi o fygythiadau i ddiogelu iechyd, statws iechyd presennol y boblogaeth, a phenderfynyddion ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd.

> Rydym yn darparu ystod o swyddogaethau iechyd y cyhoedd craidd a gwasanaethau clinigol i'r cyhoedd a'n partneriaid, gan gynnwys GIG Cymru.

I gyflawni hyn, rydym yn darparu ystod o swyddogaethau iechyd y cyhoedd craidd a gwasanaethau clinigol i'r cyhoedd a'n partneriaid, gan gynnwys GIG Cymru. Rydym yn cyflwyno, yn monitro ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio'r boblogaeth ac yn cydlynu'r rhwydwaith clinigol a reolir ledled Cymru ar gyfer sgrinio cyn geni. Mae hyn yn golygu bod bron i 175,000 o fenywod wedi cael gwahoddiad i gael eu sgrinio gan Bron Brawf Cymru yn 2025, bod 105,000 o samplau serfigol wedi cael eu prosesu, bod tua 112,000 o apwyntiadau sgrinio wedi cael eu cynnig gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a bod mwy na hanner miliwn o bobl wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn ein Rhaglen Sgrinio'r Coluddyn.

Rydym yn darparu ein rhwydwaith labordai microbioleg glinigol achrededig trwy reoli 15 labordy ledled Cymru i ddarparu ystod lawn o ddiagnosteg heintiau safonol, gyda phrofion arbenigol ychwanegol mewn sawl maes. Trwy ein rhwydwaith, mae tua 2.1 filiwn o samplau'r flwyddyn yn cael eu profi gan ein gwasanaeth diagnostig ac mae bron 15,000 o samplau'n cael eu dilyniannu gan ein Rhaglen Genomeg.

Rydym yn darparu gwasanaethau diogelu iechyd a gwasanaethau clinigol sy'n galluogi ymateb rhagweithiol ac adweithiol arbenigol, gan ymdrin â dros 12,800 o hysbysiadau o glefydau trosglwyddadwy yn 2025.

Mae darparu'r gwasanaethau clinigol hyn yn ganolog i'n gwaith gweithredol. Er bod cwmpas llawn hyn y tu allan i gwmpas ein Cynllun Strategol, rydym yn cydnabod bod pwysau sylweddol ar berfformiad wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yn ein rhaglenni Sgrinio'r Fron, y Coluddyn a Llygaid Diabetig a'n Gwasanaethau Iechyd Rhywiol. Er mwyn ymateb, rydym yn blaenoriaethu rhaglen wedi'i thargedu o wella perfformiad. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cerrig milltir strategol clir i sbarduno enillion mesuradwy wrth ddarparu gwasanaethau, cryfhau ein swyddogaethau ansawdd a sicrwydd a gwella ein trefniadau Llywodraethu Clinigol a goruchwylio'r Bwrdd. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u cynllunio i gyflymu adfer, gwella cysondeb a chynnal canlyniadau o ansawdd uchel ar gyfer y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu.

**15**

**Rydym yn darparu ein rhwydwaith labordai microbioleg glinigol achrededig trwy reoli 15 labordy ledled Cymru**

Ym mis Tachwedd 2025, daeth pryderon i'r amlwg ynglŷn â'n gwasanaeth Profi a Phostio Iechyd Rhywiol, yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth, diogelwch cleifion a diogelu. Mae camau'n parhau i gael eu cymryd i reoli'r digwyddiad ac mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth i liniaru'r methiannau a ddigwyddodd.

Ochr yn ochr â'r gwelliannau penodol hyn, byddwn yn parhau i ymgorffori rhagoriaeth ar draws pob gwasanaeth, gan ein galluogi i gefnogi system ehangach y GIG a chyflawni blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn ymdrechion a arweinir gan Brif Swyddog Meddygol Cymru i gryfhau'r system diogelu iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwaith â ffocws ar lefel Cymru a'r DU i ddysgu gwersi o'r ymateb i COVID-19, gweithredu argymhellion o'r Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19, a gwella cynllunio a pharodrwydd ar gyfer pandemigau yn y dyfodol. Rydym yn darparu arweinyddiaeth system i gryfhau'r system diogelu iechyd ymhellach, gan gynnwys gwaith amlasiantaeth i weithredu gwersi o'r ymateb a'r

Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19. Rydym wedi parhau i gefnogi Ymchwiliad COVID-19 y DU drwy gynhyrchu tystiolaeth tystion, tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth lafar mewn Gwrandawiadau Cyhoeddus yn erbyn meysydd y 10 modiwl. Ar ôl cyhoeddi adroddiadau modiwlau, byddwn yn sicrhau bod yr adroddiadau'n cael eu hystyried yn fanwl, bod argymhellion yn cael eu hystyried, a bod dysgu sefydliadol yn cael ei gofnodi a'i weithredu o fewn ein proses cynllunio parodrwydd ar gyfer argyfyngau.



Rydym yn darparu rhaglenni sgrinio cenedlaethol sy'n seiliedig ar y boblogaeth i geisio canfod clefydau'n gynnar, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru. Ynghyd â'n partneriaid yn y GIG yng Nghymru, rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sgrinio diogel, effeithiol a theg ar gyfer cyflyrau fel canserau'r fron, y coluddyn a cheg y groth, cyflyrau newydd-anedig a chyn geni yn ogystal â risgiau iechyd oedolion fel anewrysm aortig yn yr abdomen a sgrinio llygaid diabetig. Rydym yn gwneud yn siŵr bod ein rhaglenni'n seiliedig ar dystiolaeth a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau.

Mae darparu gwasanaeth o ansawdd rhagorol ac ymdrechu i wneud gwelliannau parhaus yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglenni newydd neu ddefnyddio offer a thechnolegau arloesol i ddeall bygythiadau ac ymateb iddynt yn well, gan gefnogi pobl i fyw bywydau hirach ac iachach yn y pen draw. Mae amddiffyn iechyd poblogaeth Cymru rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol yn hanfodol er mwyn sicrhau Cymru iachach. Tynnodd y pandemig COVID-19 sylw at bwysigrwydd diogelu iechyd a diogelwch iechyd, gan bwysleisio rôl anghydraddoldebau iechyd mewn risgiau amlygiad a chanlyniadau iechyd.

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020) yn pwysleisio'r Ddyletswydd Ansawdd i ddarparu gofal iechyd diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, amserol, effeithlon a theg o fewn diwylliant dysgu. Ein nod yw cyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Cymru drwy ganolbwyntio ar degwch i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi pawb yng Nghymru i fyw bywydau iachach a hirach. Mae sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau sgrinio, brechu, diagnostig a thriniaeth, yn hanfodol ar gyfer ansawdd gwasanaeth rhagorol.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 7.1 Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi cyflawni rhaglen wella gydlynol ar draws y system sydd wedi cryfhau'r swyddogaeth diogelu iechyd genedlaethol yn sylweddol. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r themâu Digidol, Ansawdd, Gweithlu, Tystiolaeth ac Arloesi a Chyflawni o fewn ein mapiau llwybr strategol cymeradwy, gan sicrhau nad yw ein cyflawniadau'n weithredoedd ynysig ond yn gamau dilyniannol tuag at ein nodau hirdymor ar gyfer 2035.

Mae ffigurau allweddol yn dangos y gwasanaethau a ddarparwyd gennym yn 2025-2026:

- Tua 2.1 filiwn o samplau y flwyddyn yn cael eu profi gan ein gwasanaeth diagnostig.
- Bron 15,000 o samplau wedi'u dilyniannu gan ein Rhaglen Genomeg.
- 12,800 o hysbysiadau wedi'u rheoli ar gyfer clefydau trosglwyddadwy hysbysadwy
- Gwahoddwyd mwy na 500,000 o bobl i gymryd rhan yn ein Rhaglen Sgrinio'r Coluddyn a dychwelwyd 328,800 o brofion (cyfradd gyfranogi 64%).
- Profwyd 100% o samplau sgrinio prawf imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT) o fewn safon 7 diwrnod Sgrinio Coluddion Cymru (BSW).
- Gwahoddwyd 171,136 o fenywod i gael eu sgrinio gan Bron Brawf Cymru, a sgriniwyd 118,197 o fenywod (cyfradd gyfranogi 69%).
- 92,433 o samplau sgrinio serfigol wedi'u prosesu.
- 111,240 o apwyntiadau sgrinio wedi'u cynnig gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a fynychwyd gan 90,677 o gyfranogwyr (cyfradd gyfranogi 82%)

Y ganran a oedd wedi manteisio ar sgrinio'r fron oedd 69%, ychydig yn is na'r 70% safonol. Rydym wedi bod yn gweithio drwy'r flwyddyn i wella'r amseroedd aros tair wythnos am asesiad. Mae hyn wedi gwella trwy gydol y flwyddyn, a'r gydymffurfiaeth ddiweddaraf ym mis Mawrth 2026 oedd 46%.

Rydym wedi parhau i weithio gyda Byrddau Iechyd, fel darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd gennym ni, i wella'r amseroedd aros ar gyfer colonosgopi sgrinio, sy'n is na'r safon o 90% yn llai na phedair wythnos. Mae'r sefyllfa wedi gwella trwy gydol y flwyddyn, ond mae angen cyflymu hyn. Rydym wedi sefydlu Rhaglen Gwella Colonosgopi Sgrinio

> Mae ein tîm genomeg wedi bod yn arwain y ffordd wrth ganfod pathogenau ac ymchwilio i frigiadau o achosion.

genedlaethol ochr yn ochr â Byrddau Iechyd i fynd i'r afael â materion hollbwysig, gan gynnwys gweithlu a hyfforddiant.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint genedlaethol gyntaf Cymru, y disgwylir ei lansio yn 2028. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno sgrinio wedi'i dargedu ar gyfer unigolion risg uchel, fe wnaethom ddatblygu dyluniad y rhaglen yn gyflym, sicrhau cymeradwyaeth i'r achos busnes llawn, a sefydlu'r sylfeini ar gyfer gwasanaeth sgrinio diogel a theg o ansawdd uchel. Mae hyn yn dangos ein gallu i drosi ymrwymiadau strategol yn wasanaethau y gellir eu cyflawni sy'n effeithio ar y boblogaeth.

Fe wnaethom chwarae rhan ganolog yn Ymarfer Pegasws, sef efelychiad mwyaf y Deyrnas Unedig o bandemig ers bron degawd. A ninnau'n ymatebydd Categori 1, fe wnaethom gydlynu ar draws partneriaid i brofi parodrwydd, cryfhau protocolau ymateb a sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori'n systematig mewn cynlluniau parodrwydd ar gyfer argyfyngau diwygiedig. Mae'r gwaith hwn yn cryfhau gwydnwch ac yn cyd-fynd â'n themâu Cyflawni ac Ansawdd.

Cyflawnodd pob un o'n 15 labordy mewn Gwasanaethau Heintiau achrediad ar draws y rhwydwaith o dan ISO 15189:2022, gan ddangos safonau uchel o ran rheoli ansawdd, llywodraethu clinigol ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Daeth y cyflawniad hwn yn dilyn paratoadau helaeth, gan gynnwys cyflwyno dros 300 o ddogfennau ansawdd ac asesiad 18 diwrnod gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS). Mae'r achrediad yn cryfhau dibynadwyedd, diogelwch a chysondeb cenedlaethol gwasanaethau diagnostig Cymru.

Mae arloesedd wedi datblygu microbioleg glinigol a diagnosteg heintiau ymhellach:

- Mae profion moleciwlaidd cyflym bellach yn galluogi diagnosis o fewn oriau yn hytrach na diwrnodau.
- Mae biobrofion amlddadansoddiad ar gyfer brech M a phathogenau eraill yn sicrhau mynediad teg at ddiagnosteg brydlon ledled Cymru.
- Mae roboteg a modelau gweithlu amlbroffesiynol wedi gwella effeithlonrwydd a gwydnwch.
- Mae offer moleciwlaidd datblygedig, fel teipio Dadansoddiad Tandem-Ailadroddus Rhif-Amrywiol Aml-Locws (MLVA) ar gyfer Cryptosporidiwm parvum a biobrofion ar gyfer asbergilosis ymledol, yn gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli brigiad o achosion a chanlyniadau clinigol.



Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu themâu Tystiolaeth ac Arloesedd, Ansawdd a Gweithlu ein mapiau llwybrau. Llwyddodd Labordy ein His-adran Sgrinio i adnewyddu achrediad ISO 15189:2022 ar draws yr elfennau Sgrinio'r Coluddyn a FIT symptomatig, gan ategu cymorth diagnostig diogel o ansawdd uchel. Ataliwyd achrediad ar gyfer yr elfen sgrinio serfigol yn dilyn adolygiad ym mis Mawrth ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag argymhellion UKAS a chyflawni ailachrediad cyn gynted â phosibl. Mae gwelliannau i'r gweithlu a gwelliannau digidol yn parhau i gefnogi darpariaeth gynaliadwy.

Datblygodd tîm y Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi (HARP) ddangosydd rhagnodi cenedlaethol ar gyfer gwrthfiotigau haint y llwybr resbiradol, yn unol â safonau clinigol cenedlaethol. Gyda tharged o 75% wedi'i gytuno tan fis Mawrth 2028, mae'r gwaith hwn yn gwella ansawdd rhagnodi, yn lleihau risg ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac yn darparu trywydd clir ar gyfer gwelliant ledled Cymru.

Mae dulliau ymgysylltu traws-gyfarwyddiaeth wedi'u datblygu i gryfhau cyd-gynhyrchu a sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus a chymorth gwasanaethau'n cael eu dylunio'n fwy cyson, mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r newid i ddeunyddiau gwybodaeth digidol yn gyntaf yn gwella hygyrchedd, cynaliadwyedd a phrofiad y defnyddiwr.

Mae ein tîm genomeg wedi bod yn arwain y ffordd wrth ganfod pathogenau ac ymchwilio i frigiadau o achosion. Roedd gweithredu dilyniannu metagenomig wedi galluogi adnabod Clade 1b brech M yn gyflym am y tro cyntaf yng Nghymru ym mis Hydref 2025, gan ddangos diagnosteg newydd yn cael ei chymhwyso yn y byd go iawn.

Llwyddodd y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) i gefnogi cyflwyno rhaglen frechu gonoroea wedi'i thargedu ar gyfer dynion hoyw, deurywiol, a dynion eraill sy'n cael rhyw gyda dynion sydd yn y perygl uchaf. Trwy

**ISO**

**15189:2022**

**Llwyddodd Labordy ein His-adran Sgrinio i adnewyddu achrediad ISO 15189:2022 ar draws yr elfennau Sgrinio'r Coluddyn a FIT symptomatig**

ddeunyddiau gwybodaeth a gynlluniwyd ar y cyd, hyfforddiant clinigol, casglu mewnwelediadau cymunedol, a datblygu offer gwyliadwriaeth, lansiwyd VPDP mewn modd diogel ac effeithiol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ein themâu Ansawdd, Cyflawni a Chydgynhyrchu sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr.

Ar draws gwyliadwriaeth, trawsnewid digidol, gallu labordy, rheoli digwyddiadau a llwybrau clinigol, rydym wedi datblygu un rhaglen foderneiddio gysylltiedig. Mae'r datblygiadau hyn yn gwella ein gallu i ganfod clefydau heintus a pheryglon amgylcheddol, ymateb iddynt a'u lliniaru. Er eu bod yn cael eu cyflawni trwy brosiectau penodol, gyda'i gilydd, maen nhw'n cryfhau gwydnwch a pharodrwydd Cymru ac yn cyd-fynd â'n map llwybr strategol hirdymor.

## Astudiaeth Achos 7

### Cyhoeddi Rhaglen Sgrinio Canser yr Ysgyfaint Newydd

Ar 28 Mehefin 2025, cyhoeddodd Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y byddai Cymru yn cyflwyno rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint genedlaethol. Dilynodd hyn adroddiad cwmpasu a gyflwynwyd gennym ym mis Mawrth 2025, a amlinellodd lwybr argymelledig, buddion disgwyliedig a chostau amcangyfrifedig. Cadarnhaodd ei ddatganiad ein bod wedi cael cais i ddechrau cynllunio ar gyfer gweithredu ar unwaith.

Yn fuan ar ôl y cyhoeddiad, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yr ymrwymiad yn ffurfiol, a dechreuodd waith ar unwaith ar sefydlu trefniadau llywodraethu'r rhaglen, recriwtio staff allweddol a pharatoi cynlluniau gweithredu manwl. Roedd ymgysylltu'n ffocws pwysig, ac amlygwyd ystod eang o randdeiliaid i helpu i ffurfio'r gwasanaeth.

Disgwylir i'r rhaglen sgrinio newydd ar gyfer canser yr ysgyfaint gael ei lansio yn 2028.

Mae cyflwyno sgrinio am ganser yr ysgyfaint yng Nghymru yn gyfle mawr i wella canfod yn gynnar ac achub bywydau, gan nodi cam pwysig wrth gryfhau atal a gwella canlyniadau iechyd i bobl ledled Cymru.

## Astudiaeth Achos 8

### Brechlyn Cyntaf y Deyrnas Unedig ar gyfer Gonoroea yn Cael ei Roi yng Nghymru

Roeddem yn falch o weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gyflwyno'r brechlyn gonoroea cyntaf yn y Deyrnas Unedig ar 21 Gorffennaf 2025 yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Dilynodd hyn argymhelliad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yn 2023 ar gyfer rhaglen wedi'i thargedu a phenderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025 i gyflwyno'r brechlyn o'r haf ymlaen. Cynigiwyd y brechlyn trwy wasanaethau iechyd rhywiol arbenigol i bobl sydd mewn mwy o berygl.

Mark, o Gaerdydd, oedd y person cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael y brechlyn Meningococol math B (4cMenB) ar gyfer gonoroea ar ôl clywed am y rhaglen trwy gyfryngau cymdeithasol ac elusennau fel Ymddiriedolaeth Terence Higgins. Roedd yn falch o'i dderbyn yn gynt na'r disgwyl fel rhan o'i ofal rheolaidd. Dywedodd Mark y cymerodd y brechlyn oherwydd ei fod yn gobeithio y byddai'n helpu i leihau lledaeniad gonoroea yn yr un modd ag yr oedd PrEP (Proffylacsis Cyn-Amlygiad) wedi lleihau trosglwyddo HIV (Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol). Rhoddwyd ei frechlyn gan Sam Buckley, Ymarferydd Nyrs yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Roedd lansio'r rhaglen hon yn gam pwysig ymlaen o ran atal ac arloesi ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae hwn yn gyflawniad aruthrol sydd wedi cryfhau'r cynnig brechu i bobl mewn rhwydweithiau dynion hoyw, deurywiol, a dynion eraill sy'n cael rhyw gyda dynion ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus i wella canlyniadau iechyd. Diolchodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i bawb a oedd yn gysylltiedig am helpu i gyflawni'r garreg filltir hon wrth amddiffyn cymunedau.

## Astudiaeth Achos 9

### Mae ffigurau newydd yn dangos sut mae brechlyn y Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) yn lleihau arosiadau yn yr ysbyty i oedolion hŷn a babanod

Gan weithio gyda'n partneriaid ledled y Deyrnas Unedig, rydym wedi astudio effeithiolrwydd brechiad RSV wrth atal derbyniadau i'r ysbyty gydag RSV mewn oedolion 75-79 oed yn ystod gaeaf 2024-2025.

Canfuom fod y brechlyn RSV yn lleihau risg derbyn i'r ysbyty oherwydd y feirws 75%, sydd nid yn unig o fudd i unigolion ond hefyd yn lleihau'r pwysau ar y GIG yng Nghymru. Daw'r canfyddiadau wrth i'r cynnig o frechiad RSV – a gyflwynwyd gyntaf yn 2024 i bobl 75-79 oed – gael ei ymestyn i bobl dros 80 oed yng Nghymru.

Mae'r astudiaeth, a gyhoeddwyd yn y Lancet Regional Health Europe Journal, (Saesneg yn unig) yn darparu rhywfaint o'r dystiolaeth byd go iawn gyntaf o effeithiolrwydd y brechlyn mewn oedolion hŷn. Canfu, rhwng mis Hydref 2024 a mis Ebrill 2025, fod y brechlyn RSV wedi lleihau risg derbyn i'r ysbyty gydag RSV 75% mewn oedolion 75 i 79 oed.

Rydym hefyd wedi defnyddio dulliau modelu i ddeall effaith brechu RSV ar lefel y boblogaeth ar dderbyniadau i'r ysbyty mewn babanod ac oedolion hŷn yn ystod gaeaf 2024-25. Canfu'r astudiaethau hyn fod derbyniadau i'r ysbyty wedi gostwng tua 13 y cant ymhlith y grŵp oedran 75-79 cymwys a thua 34 y cant mewn babanod yn eu 6 mis cyntaf, er bod y rhaglen yn ei chyfnodau cynnar.

Mae RSV yn feirws cyffredin sy'n gallu arwain at broblemau iechyd difrifol - fel bronciolitis a niwmonia - mewn babanod a phobl hŷn. Amcangyfrifir ei fod yn arwain at rhwng 700 a 1,000 o dderbyniadau i'r ysbyty ymhlith pobl dros 75 oed bob blwyddyn. Bob blwyddyn, mae RSV yn arwain at hyd at 9,000 o apwyntiadau meddyg teulu.

Dywedodd Dr Christopher Johnson, Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru: "Mae'r canlyniadau cynnar hyn yn galonogol iawn ac yn dangos bod y brechlyn yn rhoi amddiffyniad cryf i oedolion hŷn a babanod yng Nghymru. Mae mwy na 130,000 o bobl eisoes wedi manteisio ar y cynnig o gael brechiad RSV."

"Rydym yn gwybod mai brechu yw'r ffordd orau o amddiffyn ein hunain ac eraill rhag afiechydon fel RSV a COVID-19 ac mae ehangu'r rhaglen i bobl 80 oed a hŷn yn rhoi cyfle i hyd yn oed mwy o bobl elwa ohoni. Byddwn i'n annog pawb sy'n cael eu gwahodd i fanteisio ar y cynnig o gael eu brechu'r gwanwyn hwn."

Bydd rhaglen dal i fyny yn sicrhau bod pobl 80 oed a hŷn, a phreswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn, yn cael cynnig y brechlyn RSV rhwng mis Ebrill a mis Mehefin eleni. Lle bo modd, bydd brechiad COVID-19 y gwanwyn yn cael ei gynnig ar yr un pryd.

08

# BLAENORIAETH STRATEGOL CHWECH: MYND I'R AFAEL AG EFFEITHIAU NEWID YN YR HINSAWDD AR IECHYD Y CYHOEDD

# BLAENORIAETH STRATEGOL CHWECH: MYND I'R AFAEL AG EFFEITHIAU NEWID YN YR HINSAWDD AR IECHYD Y CYHOEDD

Cydnabyddir mai'r newid yn yr hinsawdd yw bygythiad mwyaf arwyddocaol y ganrif i iechyd cyhoeddus, gan beryglu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant. Mae'n bygwth pob agwedd ar fywyd sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni a chynnal iechyd da. Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd i Gymru ac ym mis Hydref 2021, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) mai newid hinsawdd oedd y bygythiad iechyd unigol mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth.

> **Yn fyr, mae'r newid hinsawdd eisoes yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl yng Nghymru a bydd yn parhau i wneud hynny ymhell i'r dyfodol.**

Mae'r ddaear eisoes wedi cynhesu 1.1C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol oherwydd gweithgarwch dynol. Mae angen gweithredu ar frys i gyfyngu ar y cynnydd yn nhymheredd y byd i 1.5C er mwyn atal niwed dinistriol i iechyd. Mae lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy ddewisiadau gwell o ran trafnidiaeth, bwyd ac ynni yn arwain at well iechyd - yn enwedig trwy lai o lygredd aer.

Mae effeithiau'r newid hinsawdd yn amlochrog, gan effeithio ar benderfynyddion cymdeithasol ac amgylcheddol iechyd (aer glân, diogelwch bwyd, cartrefi diogel, a mynediad at wasanaethau). Mae effeithiau'r newid hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghymru, o ran bygythiadau ffisegol i fywyd trwy ddigwyddiadau tywydd eithafol, yn ogystal â gorbryder sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yn fyr, mae'r newid hinsawdd eisoes yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl yng Nghymru a bydd yn parhau i wneud hynny ymhell i'r dyfodol.

Gwyddom fod newid hinsawdd yn debygol o gael effaith fwy andwyol ar rai cymunedau yng Nghymru nag eraill, a bod rhai yn llai tebygol o allu cymryd camau i ymateb i'r effeithiau hyn. Er enghraifft, aelwydydd incwm is mewn ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd, a'r rhai sy'n byw gydag anableddau a/neu gyflyrau cronig a'u gofalwyr. O'r herwydd, mae'n debygol y bydd effeithiau'r newid hinsawdd yn gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru. Rhaid i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod polisïau ac ymyriadau addasu effeithlon a theg ar waith sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.



Mae gennym rôl i'w chwarae wrth gefnogi agenda'r newid hinsawdd a chynaliadwyedd, gan gynnwys datblygu, deall a dehongli'r dystiolaeth i lywio camau gweithredu; darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth; a darparu cyngor technegol integredig i bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol megis cyngor polisi, newid ymddygiad, cyfathrebu, gwyliadwriaeth ac arweiniad.

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar lawer o feysydd iechyd y cyhoedd ac felly mae gwaith i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd hefyd wedi'i ymgorffori mewn Blaenoriaethau Strategol eraill – yn enwedig Darparu Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Rhagorol a Chefnogi System Iechyd a Gofal Gynaliadwy.

Mae rhagor o wybodaeth am y flaenoriaeth hon ar gael yn ein Strategaeth Hirdymor.

## 8.1 Yr hyn a gyflawnwyd gennym

Rydym wedi sefydlu strwythurau newydd i gyflawni ein blaenoriaethau hinsawdd tymor byr, canolig a hir, gan gydnabod bod newid hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd eisoes yn profi'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf a phwysleisio'r angen am drawsnewidiad teg a chyfiawn.

### 8.1.1 Iechyd y Cyhoedd sy'n Wydn o ran yr Hinsawdd ac yn Amgylcheddol Gynaliadwy

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd ac ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws ein sefydliad. Mae ein gwaith eleni wedi canolbwyntio ar adeiladu tystiolaeth gadarn, cefnogi gweithredu ar draws y system, a chyflymu cynnydd sefydliadol tuag at sero net.



### 8.1.2 Galluogi Teithio Llesol a Chynaliadwy

Un o elfennau allweddol Cymru sy'n wydn o ran yr hinsawdd yw sicrhau bod gan bawb fynediad at ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi teithio llesol fel cerdded, beicio a theithio ar olwynion.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Siarteri Teithio Llesol yn llawn ar draws holl ranbarthau Cymru, gan ddarparu fframwaith cenedlaethol cyson i gefnogi teithio llesol a chynaliadwy mewn gweithleoedd a chymunedau.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, fe wnaethom ehangu'r rhaglen drwy gyflwyno Siarter Busnes a Siarter Lefel 2, gan alluogi sefydliadau i ddatblygu eu hymrwymiadau dros amser ar eu cyflymder eu hunain. Mae'r cynnig hwn yn cynorthwyo ystod ehangach o sefydliadau i symud y tu hwnt i gamau gweithredu lefel mynediad a gwreiddio teithio llesol, carbon isel yn fwy systematig, gan ddarparu cyd-fanteision ar gyfer iechyd, lles a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae astudiaeth achos 10 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y Siarter Teithio Llesol.

Ym mis Mehefin 2025, lansiwyd Polisi Teithio Busnes Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n rhoi canllawiau clir i staff ar wneud dewisiadau teithio cynaliadwy. Cynhaliodd yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd arolwg teithio staff a grwpiau ffocws i werthuso a gwreiddio'r polisi. Mae ein gwaith ar Deithio Llesol a Chynaliadwy wedi'i gynnwys ym Mlaenoriaeth Strategol 6.

### 8.1.3 Datblygu Cydweithio a Gallu Ymchwil ar draws y System

Yn 2025, lansiwyd Rhwydwaith Ymchwil Hinsawdd ac Iechyd Cymru, gan greu platfform pwrpasol i gydlynu partneriaethau ymchwil, rhannu tystiolaeth a chefnogi ceisiadau am gyllid cydweithredol. Mae'r rhwydwaith yn gwella gallu ymchwil Cymru yn y maes hollbwysig hwn ac yn helpu i gyflymu camau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd.

### 8.1.4 Cryfhau Tystiolaeth ar yr Hinsawdd, Iechyd a Bioamrywiaeth

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar risgiau iechyd ac ecolegol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n effeithio ar Gymru. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Morbidrwydd Gwres 2024, a roddodd ddadansoddiad manwl o farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres

yn ystod cyfnodau o wres eithafol, gan nodi cynnydd bach ond ystadegol arwyddocaol mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres. Mae'r dystiolaeth hon yn atgyfnerthu'r angen dybryd i weithredu i amddiffyn poblogaethau agored i niwed wrth i risgiau'r hinsawdd ddwysáu. Mae Astudiaeth Achos 11 yn darparu rhagor o wybodaeth am Forbidrwydd a Marwolaethau Gwres yng Nghymru.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Bioamrywiaeth a'n Hadroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau, gan nodi sut rydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol ac yn cryfhau gwydnwch y sefydliad i effeithiau cyfunol newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r cyhoeddiadau hyn yn dangos ein hymrwymiad i weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a stiwardiaeth amgylcheddol hirdymor. Cefnogodd yr holl elfennau hyn ein gwaith cydweithredol gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol ar asesiadau risg hinsawdd i sicrhau bod risgiau penodol i Gymru yn cael eu nodi, eu deall a'u trin yn gyson ar draws y system. Cyrhaeddodd ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y rhestr fer yng Ngwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2025, gan adlewyrchu ehangder y gweithgarwch cynaliadwyedd ar draws y sefydliad.

Wrth ymateb i effeithiau cynyddol yr hinsawdd, mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd wedi gweithio gyda staff ar draws y sefydliad i ddatblygu cynllun ac Asesiad Risg Hinsawdd, gan nodi camau gweithredu tymor byr a thymor hir i gryfhau gwydnwch sefydliadol. Mae camau addasu blaenoriaethol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Ymateb i'r Hinsawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru (2026–28), a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2026, sy'n alinio gwaith ar ddatgarboneiddio a risg hinsawdd i gefnogi cynnydd tuag at Sero Net.

> **Wrth ymateb i effeithiau cynyddol yr hinsawdd, mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd wedi gweithio gyda staff ar draws y sefydliad i ddatblygu cynllun ac Asesiad Risg Hinsawdd, gan nodi camau gweithredu tymor byr a thymor hir i gryfhau gwydnwch sefydliadol.**

### 8.1.5 Cyflymu Cynnydd tuag at Sero Net

Fe wnaethom gwblhau gwerthusiad cynhwysfawr o'n Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd (2024–26), gan asesu cynnydd wrth weithredu, effaith sefydliadol a chyflawniad yn erbyn ein huchelgeisiau sero net.
Daeth y gwerthusiad i'r casgliad, hyd yn oed petai'r cynllun presennol yn cael ei gyflawni'n llawn, y byddai angen camau gweithredu ychwanegol a mwy uchelgeisiol i gyrraedd targedau sero net GIG Cymru erbyn 2030. Nodwyd saith argymhelliad sydd wedi llywio'r broses o ddatblygu a chyhoeddi ein Cynllun Ymateb i'r Hinsawdd yn uniongyrchol. Mae'r cynllun newydd hwn yn amlinellu rhaglen weithredu gliriach a mwy targedig sy'n cyd-fynd â cherrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'n huchelgais o ddod yn sefydliad

**84,000**

**Newid i ofyn am brofion yn electronig yn y labordy Sgrinio'r Coluddyn, gan arbed 84,000 o ddalennau o bapur bob blwyddyn.**

carbon niwtral ac, yn y pen draw, yn sefydliad carbon negatif erbyn 2035. Rydym hefyd yn creu gweithlu iechyd y cyhoedd Hinsawdd-Ddeallus trwy fframwaith dysgu a gweithredu newydd.

Un enghraifft o gamau gweithredu i leihau ein hallyriadau carbon yw gwaith ein staff Gwasanaethau Heintiau, sydd wedi ffurfio Grŵp Hyrwyddwyr Labordy Gwyrdd ac sy'n gweithio i leihau plastigau untro a gwastraff ar draws ein labordai. Mae'r grŵp, sydd â dros 90 o aelodau, yn gwreiddio arferion cynaliadwy ac eisoes yn cyflawni gostyngiadau sylweddol. Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys newid i ofyn am brofion yn electronig yn y labordy Sgrinio'r Coluddyn, gan arbed 84,000 o ddalennau o bapur bob blwyddyn, a disodli cynwysyddion plastig nad ydynt ar gyfer offer miniog â dewisiadau amgen cardbord, y disgwylir iddo gael gwared ar dros 20,000 o jariau plastig o wastraff. Mae cynnydd ychwanegol yn cynnwys mentrau arbed ynni, cyllyll llawfeddyg y gellir eu hailddefnyddio, treialu llechi ar gyfer portffolios hyfforddi a chasglu data i gyflwyno camau gweithredu llwyddiannus ar raddfa fawr ar draws y rhwydwaith.

### 8.1.6 Gwella Mesur Carbon a Gwneud Penderfyniadau

Rydym wedi gwella ein dull o fesur carbon ac rydym bellach yn mesur ein hôl troed carbon yn rheolaidd ar draws allyriadau uniongyrchol, allyriadau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ynni ac allyriadau cadwyn werth ehangach. Mae hyn yn ein galluogi i gael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o ble mae ein heffeithiau carbon yn codi.

I gefnogi hyn, fe wnaethom ddatblygu dangosfyrddau allyriadau carbon newydd sy'n galluogi monitro amser real drwy gydol y flwyddyn. Mae'r offer hyn yn gwella tryloywder, yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, ac yn helpu i flaenoriaethu camau gweithredu lle byddant yn cael yr effaith fwyaf, gan wreiddio ymwybyddiaeth o garbon yn fwy cyson ar draws y sefydliad.



## Astudiaeth Achos 10

### Siarteri Teithio Llesol

Mae Siarteri Teithio Llesol yn darparu fframwaith cenedlaethol i helpu sefydliadau yng Nghymru i hyrwyddo teithio iachach, mwy cynaliadwy a charbon isel. Trwy gofrestru, gall cyflogwyr gefnogi lles staff, lleihau absenoldeb oherwydd salwch a gostwng allyriadau carbon, tra bod gweithwyr yn elwa o fwy o weithgarwch corfforol, llai o straen ac iechyd cyffredinol gwell. Mae Siarteri Teithio Llesol bellach wedi'u sefydlu ar draws holl ranbarthau Cymru. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, fe wnaethom ddatblygu Safonau Siarter Teithio Llesol newydd i Gymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Arweiniwyd y gwaith hwn gan grŵp llywio cenedlaethol a oedd â'r nod o gryfhau teithio cynaliadwy yn y gweithle a nodi cyfleoedd ariannu.

Mae'r Safonau'n cyflwyno camau gweithredu cliriach a mwy penodol, tair lefel cyflawniad, a mwy o hyblygrwydd ar gyfer sefydliadau aml-safle. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau dull mwy cyson ac effeithiol o wella teithio i'r gweithle ledled Cymru.

Arweiniodd yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd y broses o ddylunio'r Safonau ar gyfer y gwasanaeth a bydd yn goruchwylio'r camau darparu, monitro a gwerthuso, gyda Thrafnidiaeth Cymru yn cefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu. Rydym wedi cyflawni statws Lefel 1 o dan Siarter Caerdydd a'r Fro a byddwn yn cofrestru ar gyfer y Safonau newydd, gan ymrwymo i gyflawni Lefel 1 erbyn 2028.

## Astudiaeth Achos 11



### Morbidrwydd a Marwolaethau Gwres yng Nghymru

Yng Nghymru, mae'r deng mlynedd poethaf a gofnodwyd erioed wedi digwydd ers dechrau'r blynyddoedd 2000, ac mae tymereddau'n parhau i godi oherwydd newid hinsawdd. Mae rhagolygon yn dangos y bydd y duedd gynhesu hon yn parhau, gan arwain at ddigwyddiadau gwres poethach ac amlach yn y degawdau nesaf. Er bod baich byd-eang morbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres yn cael ei gydnabod fwyfwy, nid yw'r effeithiau penodol ar iechyd yng Nghymru wedi'u harchwilio'n ddigonol yn hanesyddol. Nododd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig 2022 fod effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig â thymheredd yn bryder cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres a gwydnwch systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Tan yn ddiweddar, fodd bynnag, nid oedd gan Gymru dystiolaeth wedi'i theilwra a systemau gwyliadwriaeth cyson i ddeall y risgiau hyn yn llawn.

I fynd i'r afael â'r bwlch hwn, fe wnaethom gyhoeddi Adroddiad Blynyddol Morbidrwydd Gwres 2024, ochr yn ochr ag adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth ar forbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad cadarn, penodol i Gymru o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyfnodau o wres eithafol. Yn ystod digwyddiadau gwres yn 2024, amcangyfrifwyd y bu 557 o farwolaethau, gyda naw marwolaeth ychwanegol y dydd ar gyfartaledd o gymharu â chyfnodau heb wres, sy'n gynnydd ystadegol arwyddocaol. Yn ystod misoedd yr haf, roedd marwolaethau'n uwch na'r cyfartaledd tymhorol hirdymor, gan dynnu sylw at y risgiau iechyd cynyddol a achosir gan dymheredd uwch, yn enwedig i oedolion hŷn a'r rhai sydd â chyflyrau cardiofasgwlaidd ac anadlol.

Mae'r gwaith hwn yn newid sylweddol yn y ffordd y mae risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â gwres yn cael eu monitro a'u deall yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau wedi llywio asesiadau risg hinsawdd, wedi cefnogi cynllunio addasu, ac wedi cryfhau aliniad â threfniadau parodrwydd cenedlaethol ar gyfer iechyd gwres.

09

# GALLUOGI CYFLAWNI EIN CYNLLUN YN LLWYDDIANNUS

09

# GALLUOGI CYFLAWNI EIN CYNLLUN YN LLWYDDIANNUS

Mae ein swyddogaethau galluogi yn parhau i fod yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn llwyddiannus, gan chwarae rhan hanfodol yn arweinyddiaeth a chyflawniad nifer o feysydd gwaith pwysig, ochr yn ochr â chyflawni ein hamrediad llawn o swyddogaethau a gweithgareddau statudol. Rydym wedi canolbwyntio ar gyflawni'r effaith fwyaf drwy adeiladu ar ddulliau arloesol sy'n gweithio, gan osod defnyddwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn a thrwy ffocws diysgog ar wella ansawdd.

> **Ein nod yw sicrhau bod dysgu lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o bolisïau, ymchwil ac arferion yn cael ei ddwyn ynghyd i gefnogi ein partneriaid yng Nghymru.**

## 9.1 Defnyddio gwyddor ymddygiad a phartneriaethau rhyngwladol i hybu ansawdd a chydweithio

Fel Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, mae ein gwaith yn canolbwyntio ar y ffordd orau o fuddsoddi mewn gwell iechyd, lleihau anghydraddoldebau, adeiladu cymunedau cryfach a systemau cydnerth yng Nghymru, Ewrop a ledled y byd. Rydym yn eirioli dros bolisïau mwy cynaliadwy, gan groesawu egwyddorion hawliau dynol, tegwch ac ymyriadau ar sail tystiolaeth, a helpu i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn darparu tystiolaeth ar gyfer gweithredu, yn ogystal â chefnogaeth uniongyrchol i randdeiliaid i wella effaith gweithgareddau iechyd y cyhoedd


GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
Welsh Immunisation Conference
Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

ledled Cymru a thu hwnt. Ein nod yw sicrhau bod dysgu lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o bolisïau, ymchwil ac arferion yn cael ei ddwyn ynghyd i gefnogi ein partneriaid yng Nghymru.

Mae ein gwaith wedi'i ategu gan ein Strategaeth Iechyd Rhyngwladol sy'n cefnogi ein rôl genedlaethol a'n blaenoriaethau strategol, gan sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn arweinydd byd-eang ym maes iechyd y cyhoedd trwy feithrin partneriaethau a sbarduno effaith ar draws ffiniau. Ein gweledigaeth iechyd rhyngwladol yw bod yn sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol sy'n gysylltiedig yn fyd-eang ac yn ysbrydoledig, gan weithio tuag at Gymru iachach a thecach i fynd i'r afael â heriau byd-eang a nodau cyffredin. Gall y dysgu hwn wella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau i bobl Cymru.

> **Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gryfhau ein partneriaethau rhyngwladol, ein cydweithio a'n gwaith ar y cyd, gan gyfrannu at yr agenda iechyd fyd-eang trwy arbenigedd, tystiolaeth a deialog.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gryfhau ein partneriaethau rhyngwladol, ein cydweithio a'n gwaith ar y cyd, gan gyfrannu at yr agenda iechyd fyd-eang trwy arbenigedd, tystiolaeth a deialog. Rydym wedi gweithio ar draws y sefydliad a chyda'n partneriaid i gefnogi cyflawni Strategaeth Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynyddu effaith y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC) i'r eithaf ar draws y GIG, gan ddatblygu a rhannu cyfleoedd, offer ac adnoddau, megis y modiwlau Dinasyddiaeth Fyd-eang, pecynnau cymorth, interniaethau, ymweliadau astudio ac eraill.

Mae ein Huned Gwyddor Ymddygiad yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r defnydd rheolaidd a systematig o offer, fframweithiau a damcaniaeth ymddygiadol i sbarduno arloesedd ac effaith. Trwy ddarparu cyngor a chymorth technegol; adborth cyflym ar bolisi, gwasanaethau a chyfathrebu; meithrin galluogrwydd ar gyfer defnyddio gwyddor ymddygiad; ac eiriolaeth ac ymgysylltu, mae'r Uned yn galluogi gwelliant parhaus mewn ansawdd ar draws y system iechyd y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Huned Gwyddor Ymddygiad wedi cyhoeddi cynllun galluogi cynhwysfawr ac wedi ymgymryd â gwaith i feithrin arbenigedd, galluoedd ehangach, a galluogi gweithgarwch yn y maes hwn, er mwyn gwella iechyd a llesiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Er enghraifft, rydym wedi bod yn cefnogi cyfathrebu mwy effeithiol ynghylch iechyd trwy'r Fenter Cyfathrebu Gwybodus am Ymddygiad (BICI) i wella effaith llythyrau a negeseuon testun gan ein gwasanaethau sgrinio, brechu a rheoli tybaco.

## 9.2 Gwneud y defnydd gorau o ddigidol, data a thystiolaeth i wella iechyd y cyhoedd




Mae mewnwelediadau o ddata am y boblogaeth yn hanfodol i wella iechyd a llesiant Cymru a lleihau anghydraddoldebau. Rydym yn defnyddio data o sawl ffynhonnell i wella iechyd. Mae'r ffynonellau data hyn yn cynnwys y gwasanaethau a ddarparwn, y GIG, y sector cyhoeddus (e.e. ysgolion), y llywodraeth, data ymchwil ac arolygon cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r GIG yng Nghymru yn casglu'r data angenrheidiol yn systematig i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n deg ac yn gwella canlyniadau ym mhob poblogaeth. Nid yw'n hyfedr ychwaith wrth ddefnyddio data a dadansoddiadau o ffynonellau eraill i gefnogi'r swyddogaeth hon. Ni allwn fonitro canlyniadau iechyd, cynnydd wrth leihau anghydraddoldebau, na chwynion defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol, ac mae ein gallu i adeiladu ar sylfaen dystiolaeth yr hyn sy'n gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd yn wan.

Yn 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Digidol a Data a amlinellodd ein cydymffurfedd â'n strategaeth sefydliadol a strategaethau allanol allweddol ar gyfer digidol ac iechyd, gan gynnwys gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae ein Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso yn parhau i gefnogi wrth i ni gryfhau trefniadau ar gyfer cynhyrchu, defnyddio a rhannu ymchwil iechyd y cyhoedd ledled Cymru. Mae'n ein helpu i gynhyrchu tystiolaeth i gyfrannu at ymdrech genedlaethol, ar draws y system, i wella prosesau gwneud penderfyniadau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyflawni canlyniadau gwell.

Gyda'r amrywiaeth mewn rhaglenni gwaith o fewn ein Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol, rydym wedi cyflawni llawer o gyflawniadau allweddol ar draws y sefydliad ac mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gryfhau ein dull gweithredu yn fewnol a chyda'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod gennym y data, y dadansoddiad a'r mewnwelediadau sy'n angenrheidiol i lywio camau gweithredu i wella iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru.

Rydym wedi datblygu'r pum ffrwd waith allweddol a osodwyd yn ein trywydd digidol a data:

- Rhaglen Data, Dadansoddi, Cofrestrau a'r Cwmwl (DARC): bydd y rhaglen hon yn mudo ein gallu dadansoddol i Blatfform Data a Dadansoddi Cenedlaethol (NDAP) yr Adnodd Data Cenedlaethol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad gwasanaethau rheng flaen sy'n cael eu galluogi gan y cwmwl, ar gyfer y Rhaglen Diogelu Iechyd Digidol i ddechrau. Mae'r Rhaglen DARC hefyd yn gyfrifol am reoli'r newidiadau i systemau a fydd yn ofynnol wrth i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) ddisodli'r feddalwedd archwilio + (data gofal sylfaenol).

- Systemau Digidol: sy'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer moderneiddio'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau. Mae hyn wedi'i ddiweddaru yn 2025-2026 i adlewyrchu'r gofynion cynyddol a'r angen i symud i Wella Iechyd Digidol. Roedd hyn yn cynnwys ailwampio platfform ein system sgrinio newydd-enedigol; dechrau'r system Diogelu Iechyd Digidol i sicrhau y gallwn gyflawni o ddydd i ddydd ac mewn pandemig a dechrau'r galluogi digidol o amgylch y rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint newydd.

- Seiberddiogelwch: er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn datblygu ein gwydnwch a pharodrwydd seiber yn unol â NIS ac Archwiliadau ein Huned Seibergadernid.

- Deallusrwydd Artiffisial (AI) ac Awtomeiddio: ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom sefydlu'r Awdurdod Dylunio deallusrwydd artiffisial, sy'n gyfrifol am roi sicrwydd ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial yn ein sefydliad, datblygu canllawiau ac arferion da i gefnogi defnydd diogel, effeithiol a chyfreithlon o ddeallusrwydd artiffisial, sefydlu rhaglen waith i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel ac yn ddibynadwy lle mae hynny'n ychwanegu gwerth ac yn ddiogel, a defnyddio awtomeiddio i gyflawni effeithlonrwydd.

- Pobl, Seilwaith ac Offer: datblygu offer cyffredin, ffyrdd o weithio a theuluoedd swyddi i gefnogi ein huchelgeisiau.

Rydym yn parhau i ddeall a monitro effeithiau straen ar iechyd, megis yr argyfwng costau byw, niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gordewdra a newid hinsawdd, ar draws pob agwedd ar iechyd y boblogaeth.










Rydym wedi parhau i gyhoeddi ein dangosfwrdd trosolwg cyflym, sy’n darparu monitro amser real ar draws chwe blaenoriaeth strategol y sefydliad. Bydd hyn yn ein symud yn agosach at fonitro bygythiadau i iechyd y cyhoedd mewn amser real.

Rydym wedi cefnogi datblygiad ymchwil o fewn ein sefydliad sy’n cyd-fynd â’n cryfderau ac yn parhau i ddylanwadu ar y cyd-destun ymchwil ehangach a chyllidwyr i fynd i’r afael â bylchau tystiolaeth mewn meysydd blaenoriaeth ar gyfer iechyd yng Nghymru.

## Dynodiad fel Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Degwch Iechyd Digidol

Ym mis Mai 2024, fe'n gwahoddwyd gan WHO Ewrop i ddod yn Ganolfan Gydweithredol gyntaf WHO ar gyfer Tegwch Iechyd Digidol, gan gydnabod ei waith a'i phartneriaethau cynyddol ar degwch iechyd digidol. Yn dilyn trafodaethau pellach yng Nghymru a chyda WHO, cymeradwywyd y dynodiad mewn egwyddor ym mis Gorffennaf 2025. Yna, cyflwynwyd cais llawn gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, ac ar 11 Medi 2025, cadarnhaodd WHO Ewrop fod y cais wedi bod yn llwyddiannus. Ychwanegodd y cyflawniad hwn at statws presennol Cymru fel Canolfan Gydweithredol WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, a roddwyd gyntaf yn 2018.

Sefydlwyd y Ganolfan Gydweithredol newydd i gefnogi ymdrechion WHO Ewrop i sicrhau tegwch mewn trawsnewid iechyd digidol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Canolbwyntiodd ei gwaith ar gryfhau tegwch iechyd digidol, llunio canllawiau technegol WHO a chefnogi cydweithio ar draws y rhanbarth. Amlygodd y dynodiad arbenigedd ein Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol. Rhoddwyd cynlluniau ar waith hefyd gyda WHO i drefnu cyfathrebu a digwyddiad lansio, a gobeithiwyd y byddai'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn ymuno â'r lansiad swyddogol.



## 9.3 Gweithlu – Ein Pobl

Rydym yn wynebu dyfodol o ofynion cynyddol a heriau iechyd y cyhoedd sy'n esblygu. Er mwyn cyflawni ein Strategaeth Hirdymor, rhaid i ni ddatblygu gweithlu ymgysylltiedig sy'n perfformio'n dda. Mae'r amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym a disgwyliadau unigolion sy'n esblygu yn galw am weithle sy'n blaenoriaethu llesiant, hyblygrwydd, cynhwysiant a thwf. Mae angen i ni addasu i ddenu a chadw'r dalent orau.

Yn 2025, cyhoeddwyd ein *Strategaeth Pobl ar gyfer 2025-2035* i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gwbl gydnaws â'n strategaeth sefydliadol ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Cymeradwywyd y Strategaeth ddiwygiedig gan y Bwrdd ym mis Mai 2025. Fe'i ffurfiwyd gan ymgysylltiad helaeth â'n pobl, ein rhwydweithiau staff a'n partneriaid Undebau Llafur, sydd wedi bod yn hanfodol wrth sicrhau bod y Strategaeth yn adlewyrchu profiadau bywyd, dyheadau a heriau ein gweithlu. Mae'n amlinellu blaenoriaethau clir i ddenu, cadw, datblygu a chefnogi gweithlu hyblyg, cynaliadwy a ffyniannus ac mae'n

ganolog i'n gallu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol hirdymor a gwella iechyd a pherfformiad sefydliadol. Wrth ymateb i'r cyd-destun allanol presennol ac sy'n dod i'r amlwg, ein pwyslais uniongyrchol yw cryfhau sylfeini sefydliadol sy'n hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd a pherfformiad: ein diwylliant sefydliadol dymunol, dyluniad sefydliadol a dysgu a datblygu ar gyfer ein harweinwyr sefydliadol a rheolwyr pobl. Trwy fuddsoddi'n strategol yn y meysydd hyn, byddwn mewn sefyllfa dda i wynebu heriau'r dyfodol, cyflawni ein Strategaeth Hirdymor a gwireddu ein gweledigaeth o Gymru iachach i bawb.

### 9.3.1 Diwylliant a Phrofiad

Mae ein naratif diwylliannol a'n hymrwymiad i arweinyddiaeth dosturiol yn sail i'n Strategaeth Pobl. Mae gweithio ar ein blaenoriaethau diwylliannol yn allweddol i liniaru ein risg strategol i iechyd y sefydliad. Rydym wedi buddsoddi mewn datblygu cymuned o Hyrwyddwyr Diwylliannol ar draws y sefydliad, sef grŵp sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo newid cadarnhaol a chwarae rhan allweddol wrth rannu arferion gorau lleol, yn enwedig o gyfarwyddiaethau sydd wedi dangos y cynnydd mwyaf.

> **Yn 2025, cyhoeddwyd ein Strategaeth Pobl ar gyfer 2025-2035 i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gwbl gydnaws â'n strategaeth sefydliadol ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol.**

Yn ystod y 18 mis diwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau a gwreiddio diwylliant sefydliadol cadarnhaol. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar yr egwyddor bod diwylliant yn cael ei ffurfio gan ymddygiadau pob dydd, y penderfyniadau a wnawn a'r systemau a ddefnyddiwn. Mae ein Naratif Diwylliannol diwygiedig, o fewn y Strategaeth Pobl, ochr yn ochr â chyflwyno sesiynau a digwyddiadau ymgysylltu mewnol, yn atgyfnerthu ein gwerthoedd a'n disgwyliadau. Mae'r sesiynau ymgysylltu mewnol hyn yn dod â staff o bob rhan o'r sefydliad ynghyd, gan gynnwys ein cynadleddau staff yn ogystal â'r sesiwn holi ac ateb agored fyw (ac wedi'i recordio) 'Amser gyda Tracey' a 'Sbotolau ar' wahanol feysydd a phynciau ar draws y sefydliad. Mae fframwaith ymddygiad Bod ar Ein Gorau, sy'n pwysleisio ymddiriedaeth, parch, a chodi llais, yn cael ei ymgorffori mewn prosesau sefydliadol amrywiol, gan gynnwys cyfarfodydd Fy Nghyfraniad a thrafodaethau ynghylch gosod amcanion.

Mae gallu arweinyddiaeth wedi'i gryfhau trwy'r Rhaglen Trawsnewid Arweinyddiaeth, yr ymgyrch "Un Peth yn Unig" i bwysleisio bod pawb yn ymwneud â diwylliant trwy gamau gweithredu dyddiol a bron 50 o Hyrwyddwyr Diwylliannol achrededig sy'n cefnogi cyfarwyddiaethau a thimau uwch. Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Ymgysylltu Integredig ar draws y sefydliad, wedi'i lywio gan arolygon staff ac asesiadau diwylliannol, ochr yn ochr â chynlluniau Cyfarwyddiaeth ac Is-adrannol wedi'u teilwra.

## Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth

Fe wnaethom gyflwyno ein Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth gyntaf mewn partneriaeth â'r Coleg Nyrsio Brenhinol, a ddaeth i ben yn 2026. Cwblhaodd pymtheg o nyrsys a bydwragedd y rhaglen chwe mis bwrpasol, a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer cyd-destun iechyd y cyhoedd ac a oedd yn cyd-fynd â chanlyniadau dysgu Lefel 7 Agored Cymru. Ymgymerodd y cyfranogwyr â phrosiect gwella gwasanaeth ac aseiniad arweinyddiaeth ysgrifenedig, gan elwa hefyd o gefnogaeth gan gymheiriaid, datblygiad proffesiynol a'r cyfle i ennill cymhwyster arweinyddiaeth Lefel 7. Dathlodd y diwrnod olaf eu cyflawniadau trwy gyflwyniadau poster a chyfraniadau gan uwch arweinwyr nyrsio a bydwreigiaeth ledled Cymru.

Nod y rhaglen oedd meithrin gallu arweinyddiaeth a datblygu cenhedlaeth newydd o arweinwyr nyrsio a bydwreigiaeth hyderus, tosturiol a strategol o fewn ein sefydliad. Yn dilyn llwyddiant y garfan gyntaf hon, mae cynlluniau ar waith i gynnal y rhaglen eto.

Yn ogystal, mae gan bob nyrs a bydwraig o bob rhan o'n sefydliad fynediad bellach at Oruchwyliaeth Glinigol Adferol (RCS) a ddarperir trwy'r model Eiriolwr Nyrsio Proffesiynol (PNA) i gefnogi llesiant, datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd. Mae hyn er mwyn cydymffurfio â gorchymyn y Prif Swyddog Nyrsio bod gan bob Nyrs a Bydwraig fynediad at RCS.

### 9.3.2 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn parhau i gryfhau ein dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda chynnydd clir ar draws sawl dangosydd. Rydym wedi cynnal ymgysylltiad cryf â'n saith rhwydwaith staff ac, yn ogystal â'r rhwydweithiau, mae gennym Is-grŵp Niwroamrywiaeth, Caffi Menopos a Chaffi Lleuad. Rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2025, tyfodd aelodaeth y rhwydwaith 110, i 907 o aelodau staff sy'n cymryd rhan weithredol, o 30% i 34% o'n gweithlu.

Rydym yn dal lefel Aur gyda Rhagoriaeth yng Nghynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru. Dyma lefel uchaf y cynllun, sy'n cael ei asesu'n annibynnol gan Fuddsoddwyr mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Deyrnas Unedig (UKIED).

Rydym wedi gwella ein hachrediad Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac wedi cynnal lefelau uchel o adrodd data ar y cofnod staff electronig (ESR). Rydym yn gefnogwr balch o Gyfamod y Lluoedd Arfog, ac roedd ein cais adnewyddu lefel aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yn llwyddiannus a bydd yn ddilys am bum mlynedd arall o fis Rhagfyr 2025.

Er bod ein bwlch cyflog rhywedd wedi parhau i gulhau, rydym yn cydnabod bylchau sy'n ehangu ar gyfer rhai grwpiau ac wedi ymrwymo i gamau gweithredu wedi'u targedu trwy Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu i fynd i'r afael â datblygiad anghyfartal, canlyniadau recriwtio a defnydd anghymesur o brosesau ffurfiol.

**907**

**Rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2025, tyfodd aelodaeth y rhwydwaith 110, i 907 o aelodau staff sy'n cymryd rhan weithredol, o 30% i 34% o'n gweithlu.**

Rydym yn ymfalchïo'n fawr ein bod yn sefydliad dwyieithog, sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar bob lefel. Mae Tîm y Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg, gan ddarparu arweiniad arbenigol, templedi a chyflwyno cynnwys Cymraeg o ansawdd uchel. Maent hefyd yn arwain hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn cefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.

### 9.3.3 Gweithio mewn Partneriaeth

Rydym wedi ymrwymo i bartneriaeth gref ac adeiladol gyda'n Hundebau Llafur cydnabyddedig: yr Undeb Llafur Cyffredinol, Trefol, Gwneuthurwyr Boeleri a Pherthynol (GMB), Rheolwyr mewn Partneriaeth (MiP), y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas y Radiograffwyr, UNISON (Undeb y Gwasanaeth Cyhoeddus), Uno'r Undeb, a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA). Mae cynrychiolwyr Undebau Llafur yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a phob Pwyllgor, gan roi mewnbwn gwerthfawr i drafodaethau a phenderfyniadau. Mae ein Fforwm Partneriaeth Lleol, sy'n elfen allweddol o'n fframwaith llywodraethu, yn gweithredu fel y mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, negodi a chyfathrebu ynglŷn â materion strategol y gweithlu. Gyda'i gilydd, mae rheolwyr a chydweithwyr Undebau Llafur yn cydweithio ar feysydd fel datblygu polisïau, newid sefydliadol, moderneiddio'r gweithlu a gwelliant diwylliannol.



**4%**

**Mae'r ganran cyfwerth ag amser llawn o absenoldeb salwch 12 mis treigl wedi amrywio tua 4% yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan gyrraedd brig o 4.6%.**

Mae ein Cyd-bwyllgor Negodi Meddygol a Deintyddol (JMDNC) yn darparu gwaith partneriaeth strwythuredig gyda chydweithwyr meddygol a deintyddol a'r BMA. Mae'r dull hwn yn sicrhau deialog agored, yn cefnogi llesiant staff, yn hyrwyddo datrysiad cynnar ac yn cryfhau perchnogaeth a rennir ar flaenoriaethau sefydliadol, gan gynnwys defnydd effeithiol o amser cyfleusterau ac ymrwymiad parhaus i waith partneriaeth ystyrlon.

### 9.3.4 Llesiant Staff

Mae'r ganran cyfwerth ag amser llawn o absenoldeb salwch 12 mis treigl wedi amrywio tua 4% yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan gyrraedd brig o 4.6%. Ar gyfer mis Rhagfyr 2025, roedd y ganran cyfwerth ag amser llawn o absenoldebau 12 mis treigl yn 4.58% (absenoldeb byrdymor o 1.78% ac absenoldeb hirdymor o 3.16%), heb gynnwys Perfformiad a Gwella GIG Cymru, o gymharu â 4.23% (absenoldeb byrdymor o 1.57% ac absenoldeb hirdymor o 3.47%) ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae absenoldeb salwch hirdymor yn parhau i fod yn brif ffactor sy'n sbarduno perfformiad cyffredinol, gan gyfrif am tua 80% o ddiwrnodau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd drwy gydol y flwyddyn.

Yn ddiweddar, mae Archwiliad Mewnol o effeithiolrwydd trefniadau sydd ar waith i fonitro, cefnogi ac ymateb i absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl wedi archwilio cydymffurfedd ag agweddau ar Bolisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan ac wedi dod i gasgliad o 'Sicrwydd Rhesymol' yn gyffredinol. Mae cynllun gweithredu ar waith bellach i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad a gwneud gwelliannau pellach.

Mae gorbryder, straen, iselder ac afiechydon seiciatrig eraill yn parhau i fod yn brif achosion absenoldeb hirdymor ar draws y sefydliad. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses o godio rhesymau dros absenoldeb a chryfhau hyder rheolwyr wrth gymhwyso Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan. Mae'r sefydliad wedi cynyddu gweithgarwch llesiant rhagweithiol, gan gynnwys cyfathrebiadau sy'n tynnu sylw at yr ystod lawn o gymorth llesiant, adnoddau gwydnwch, a llwybrau i staff geisio cymorth.

### 9.3.5 Heriau Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu

Rydym yn parhau i brofi pwysau recriwtio a chadw staff, yn enwedig mewn rolau arbenigol, technegol ac anodd eu llenwi. Mae'r heriau hyn yn cael eu sbarduno gan brinder gweithlu cenedlaethol, argaeledd daearyddol sgiliau, cystadleuaeth yn y farchnad lafur a chyfyngiadau ariannu tymor byr, a theimlir yr effaith fwyaf ar draws swyddogaethau meddygol, digidol, data, gwyddonol a gweinyddol sy'n hanfodol i raglenni.

Mae ein Strategaeth Pobl ddiwygiedig yn cydnabod y cyfyngiadau hyn ar draws y system ac yn ymrwymo i gryfhau llifoedd talent, ehangu mynediad at yrfaoedd iechyd y cyhoedd a datblygu sgiliau sy'n barod ar gyfer y dyfodol o fewn y gweithlu presennol. Er mwyn ymateb, mae cynllunio'r gweithlu wedi'i wreiddio yng nghynlluniau'r Gyfarwyddiaeth, gan gefnogi rhagweld bylchau sgiliau'n gliriach, cynllunio ar gyfer olyniaeth ac adnabod y rolau sydd yn y perygl mwyaf yn gynnar. Mae ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu, llwybrau gyrfa gynnar, prentisiaethau, rhaglenni datblygu strwythuredig a symudedd mewnol gwell yn cael eu defnyddio i gryfhau gwydnwch a lleihau dibyniaeth ar arbenigedd allanol prin.



## Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 22 Hydref 2025, mynychodd tua 400 o gynrychiolwyr Gynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru ym Maes Criced Morgannwg, yr un gyntaf ers 2019. Cyflwynwyd y thema, "Gweithredu heddiw, dros genedl iachach yfory," trwy berfformiad creadigol gan Duke Al a Dom Tsoi. Roedd y siaradwyr allweddol yn cynnwys Monika Kosinska o Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a Sarah Murphy AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a bwysleisiodd bwysigrwydd atal. Tynnodd panel ieuenctid sylw hefyd at pam mae'n rhaid i bobl ifanc fod yn rhan o ffurfio iechyd y cyhoedd.

Archwiliodd gweithdai a chyflwyniadau pwrpasol anghydraddoldebau iechyd, penderfynyddion ehangach iechyd, llesiant a gweithredu ar yr hinsawdd. Roedd awyrgylch y digwyddiad yn gadarnhaol ac egnïol ac roedd yn ddychweliad cryf i'n cynhadledd flaenllaw. Diolchwyd i'r Tîm Cyfathrebu, partneriaid, cyfranwyr a'r Gweinidog am helpu i ddarparu diwrnod llwyddiannus ac ysbrydoledig.

Rydym wedi cryfhau ein seilwaith a'n trefniadau llywodraethu ar draws Cynllunio Ansawdd, Rheoli Ansawdd, Gwella Ansawdd a Sicrhau Ansawdd.

## 9.4 Ansawdd Sefydliadol, Gwelliant a Rheoli Risg

Rydym yn anelu at fod yn esiampl o ran ansawdd a'n nod yw darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein dull o ymdrin ag ansawdd a gwelliant parhaus gan ddefnyddio System Rheoli Ansawdd i ddisgrifio dyluniad sefydliadol yn effeithiol ac i gymryd rhan mewn trawsnewid systemau a gwella ansawdd yn barhaus.

### 9.4.1 Ansawdd a Gwella

Rydym wedi cryfhau ein seilwaith a'n trefniadau llywodraethu ar draws Cynllunio Ansawdd, Rheoli Ansawdd, Gwella Ansawdd a Sicrhau Ansawdd. Rydym wedi ymrwymo i dyfu ein System Rheoli Ansawdd hon sydd wedi'i chynllunio er deilliannau rhagorol ac sydd wedi'i sbarduno gan anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Mae hyn yn ei dro yn galluogi diwylliant ac amgylchedd dysgu o safon sy'n cefnogi ein staff i ddarparu'r gwasanaethau gorau ac yn darparu lle gwych i weithio. Mae'r dull hwn yn cefnogi cyflawniad ein Strategaeth Hirdymor a'n blaenoriaethau strategol, a'n huchelgais ddiwylliannol fel sefydliad.

Mae mynd ar drywydd dull sefydliad-gyfan o reoli ansawdd yn ein galluogi i weithredu'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd o fewn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020). Mae hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio'n gliriach ar anghenion y system a phwrpas y sefydliad. Mae'r deuddeg Safon Ansawdd Iechyd a Gofal wedi'u saernïo ar sail chwe pharth ansawdd a chwe galluogwr ansawdd (fel y dangosir isod), i ddisgrifio sut olwg sydd ar ofal o ansawdd da.






Mae ein System Rheoli Ansawdd wedi'i strwythuro o amgylch rheoli ansawdd, cynllunio, gwella a sicrwydd, wedi'i chefnogi gan adnoddau megis y Dangosfwrdd Goruchwylio Ansawdd, asesiadau Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd a'r Hwb Gwella ac Arloesi. Mae ein Grŵp Goruchwylio Ansawdd yn darparu goruchwyliaeth weithredol ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd, yn arwain hunanasesu yn erbyn Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, yn dadansoddi canlyniadau trwy ddangosfwrdd cynhwysfawr, ac yn goruchwylio datblygu a threialu'r offeryn Asesu Effaith Ansawdd digidol newydd. Ar gyfer y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, rydym wedi cyd-ddatblygu safonau, gweithredu hunanasesiadau sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y pyrth ansawdd, creu dangosfyrddau, a chyflwyno proses adolygu gan gymheiriaid.

Yn sgil cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, rydym yn parhau i weithio gyda'n staff a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y ddwy ddyletswydd, gyda'r nod yn y pen draw o ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau iechyd cyhoeddus rhagorol.

Yn 2025-2026 roedd cyfanswm o:

- 2,091 o ddigwyddiadau, gyda 70% o ddigwyddiadau wedi'u cau o fewn 30 diwrnod (data mis Mawrth 2026).
- 154 o gwynion Datrysiad Cynnar a ffurfiol wedi'u derbyn. Rheolwyd 73% fel Datrysiad Cynnar a rheolwyd 27% o'r rhain fel cwynion ffurfiol.
- 231 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi'u derbyn. Aeth 10 o'r rhain y tu hwnt i'r cyfnod cydymffurfio 20 niwrnod oherwydd cymhlethdod y ceisiadau. Mae gwaith rheoli perfformiad sylweddol wedi gwella cydymffurfedd â'r amser cwblhau ers 2024-25.
- 44 o Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun wedi'u derbyn. Aeth pedwar o'r rhain y tu hwnt i'r cyfnod cydymffurfio o fis, yn bennaf oherwydd cymhlethdodau'r cais.

Mae cydymffurfedd ar gyfer pob Lefel Diogelu 1 a 2 yn parhau i fod uwchlaw'r targed cenedlaethol o 85%. Mae cydymffurfedd â Lefel Diogelu 3 ychydig islaw'r targed o 85%, ac mae hyfforddiant adferol wedi'i gynllunio. Yn gyffredinol, rydym yn blaenoriaethu rheoli perfformiad mewn perthynas â Hyfforddiant Diogelu, yn seiliedig ar ofynion cymhwysedd penodol i'r rôl.

### 9.4.2 Atal a Rheoli Heintiau

Yn 2025-2026, datblygwyd Offeryn Asesu Risg Heintiau Anadlol yn dilyn trafodaethau gyda'r Arweinwyr Atal a Rheoli Heintiau cenedlaethol, gyda'r bwriad o safoni'r broses asesu. Cyhoeddwyd y Datganiad Ansawdd Atal a Rheoli Heintiau yn 2025 gydag arweiniad sylweddol gennym ni. Mae'r Safonau Glanhau a'r Cod Ymarfer wedi cael eu cynhyrchu a'u cymeradwyo'n genedlaethol hefyd, ac arweiniwyd y ddau ddarn cenedlaethol hyn o waith gennym ni. Mae cyflwyno archwiliadau glanhau amgylcheddol Atal a Rheoli Heintiau newydd wedi rhoi mwy o sicrwydd a goruchwyliaeth o feysydd y mae angen eu gwella.

> **Cyhoeddwyd y Datganiad Ansawdd Atal a Rheoli Heintiau yn 2025 gydag arweiniad sylweddol gennym ni.**

### 9.4.3 Y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol wedi arwain y broses o ddatblygu datganiad ansawdd diogelu cenedlaethol ac wedi alinio metrigau ar gyfer GIG Cymru, gan sefydlu dull cyson, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, o fesur effeithiolrwydd diogelu a chryfhau sicrwydd a goruchwyliaeth ar draws y system. Cyflawnwyd rhaglen gynhwysfawr o welliant cenedlaethol hefyd.

## Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol – cyflwyno rhaglen o welliant cenedlaethol

- ***Cryfhau cydnabyddiaeth, morâl a hunaniaeth system ar draws y gweithlu diogelu*** trwy gyflwyno Digwyddiad Dathlu Diogelu cyntaf GIG Cymru, gan ddod â phartneriaid amlasiantaethol ynghyd i gydnabod cymhlethdod ac effaith arferion diogelu

- ***Gwell dysgu ac ymarfer amlasiantaethol*** trwy ddigwyddiad dysgu cenedlaethol a werthuswyd yn fanwl ar yr Adolygiad Ymarfer Plant 'Ein Dewrder a Ddaeth â Chyfiawnder' , gan gynyddu dealltwriaeth ymarferwyr o ymddygiadau cyflawnwyr a chryfhau gwneud penderfyniadau diogelu ar draws GIG Cymru.

- ***Gwell cysondeb, tegwch ac amddiffynadwyedd wrth reoli pryderon ynglŷn â Swyddi Cyfrifol*** trwy lansio dull cenedlaethol GIG Cymru, gan gefnogi sefydliadau i gymhwyso prosesau cymesur, tryloyw a chyfreithiol gadarn wrth ymateb i honiadau.

- ***Sefydlu dull safonedig, Cymru gyfan ar gyfer 'Methiant i Fynd ag Unigolyn' ac 'Ni Chafwyd Mynediad'*** ar gyfer plant ac oedolion, gan leihau amrywiadau mewn ymarfer a chryfhau adnabod risg yn gynnar, llwybrau uwchgyfeirio, ac atebolrwydd—gan wella amddiffyniad yn y pen draw i unigolion nad ydynt yn cael eu gweld na'u clywed, o bosibl.

- ***Ymatebion diogelu cryfach i blant sydd yn y perygl mwyaf*** trwy ddatblygu canllawiau Cymru Gyfan ar feichiogrwydd mewn plant dan 13 oed, gan sicrhau dull amlasiantaethol sy'n ystyriol o drawma ac sy'n blaenoriaethu diogelwch, urddas a llesiant, ac sy'n cynorthwyo ymarferwyr i ymateb yn hyderus ac yn gyson i sefyllfaoedd cymhleth iawn.

- ***Mwy o allu a chysondeb wrth ddarparu hyfforddiant diogelu*** ledled Cymru trwy lansio adnoddau hyfforddiant fideo pwrpasol yn genedlaethol (digwyddiad Hyfforddi'r Hyfforddwr, mis Hydref 2025), gan ddarparu wyth fideo dysgu sy'n seiliedig ar senarios, tri animeiddiad codi ymwybyddiaeth, a phecynnau hyfforddi cynhwysfawr i gefnogi darpariaeth leol.

Rydym wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gref ar bob lefel, llywodraethu da a darparu gwasanaethau a swyddogaethau iechyd cyhoeddus rhagorol ac effeithiol.

### 9.4.4 Rheoli Risgiau

Mae rheoli risg yn hanfodol i redeg sefydliad diogel, effeithiol, blaengar a llwyddiannus. Dylai fod wrth wraidd gwneud penderfyniadau, agendâu busnes a dyrannu adnoddau ar lefel weithredol ac ar lefel gynllunio, a dylai anelu at nodi cyfleoedd i arloesi a buddsoddi, ochr yn ochr â'r angen i leihau amlygiad i risg.

Yn ystod 2025-2026, cwblhawyd y broses o weithredu ein Cynllun Datblygu Rheoli Risg. Gwnaed cryn dipyn o waith i ailfynegi a chryfhau dealltwriaeth o risgiau strategol y sefydliad a'u perthynas â'n Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig). Mae rhaglen dreigl o archwilio risgiau strategol yn fanwl dan arweiniad y Weithrediaeth, gan gynnwys gyda'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, yn cefnogi gwell asesu, mapio rhyngddibyniaeth a pherchnogaeth y Weithrediaeth ar bob risg strategol. Yn ystod 2025-2026, fe wnaethom ailfynegi ein holl Risgiau Strategol a diwygio ein Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg. Rydym hefyd wedi cryfhau rheolaeth ac effaith ein Cofrestr Risg Gorfforaethol.

## 9.5 Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Rydym wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gref ar bob lefel, llywodraethu da a darparu gwasanaethau a swyddogaethau iechyd cyhoeddus rhagorol ac effeithiol. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn disgrifio'r swyddogaethau, y galluogwyr, y fframwaith sicrwydd, y system llywodraethu integredig a'r canllawiau gweithredu sydd gennym ar waith i gefnogi llywodraethu da. Mae'n ddogfen fyw ac mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Yn dilyn ein harolwg diwylliannol, rydym yn ymgymryd ag amrywiaeth o gamau gweithredu sydd â'r nod o ddatblygu ein diwylliant sefydliadol a chryfhau arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.

Daeth Asesiad Strwythuredig 2025 i'r casgliad ein bod wedi cynnal llywodraethu corfforaethol cryf ac effeithiol, gyda'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n gweithredu'n dryloyw ac yn defnyddio gwybodaeth glir o ansawdd uchel i gefnogi craffu a gwneud penderfyniadau. Rydym wedi parhau i gryfhau trefniadau sicrwydd corfforaethol, gan fireinio ei gofrestrau risg strategol a chorfforaethol, gwella adrodd ar berfformiad, ac olrhain argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn gadarn. Mae datblygu trywydd manwl ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, ochr yn ochr â phroses Cynllunio Tymor Canolig Integredig gydweithredol sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn dangos dull cydlynol o gynllunio hirdymor.

Amlygodd yr asesiad ein hymrwymiad i wrando ar staff a defnyddwyr gwasanaethau, gyda mecanweithiau adborth estynedig, rhwydweithiau staff cryfach, a thriongli mewnwelediadau'n fwy ar draws pwyllgorau. Mae llywodraethu ariannol yn parhau i fod yn gryfder mawr, sy'n adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi cyflawni'r holl ddyletswyddau ariannol, cyflawni arbedion a gynlluniwyd, cynnal rheolaethau cryf, a dangos cynllunio ariannol disgybledig sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol.

## 9.6 Perfformiad Ariannol



Dechreuwyd 2025-2026 gyda Chynllun Strategol (a elwir hefyd yn Gynllun Tymor Canolig Integredig) wedi'i gydbwyso'n ariannol ac wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Fe'i cymeradwywyd wedi hynny gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n parhau â'n hanes o ddatblygu a chyflawni ein Cynllun Strategol yn llwyddiannus a dychwelyd i sefyllfa o adennill costau bob blwyddyn.

Mae gennym hanes o berfformiad a stiwardiaeth ariannol cryf, ar ôl derbyn barn archwilio ddiamod, gan gynnwys cyflawni'r holl ddyletswyddau ariannol statudol bob blwyddyn ers ein sefydlu yn 2009. Rydym yn dibynnu ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys incwm craidd Llywodraeth Cymru, grantiau nad ydynt yn rhan o'r incwm craidd gan Lywodraeth Cymru, incwm Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd ac incwm arall nad yw'n rhan o'r GIG. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hynny i sicrhau a gwneud y mwyaf o gyllid i ddarparu ein gwasanaethau clinigol, iechyd y cyhoedd ac atal rheng flaen sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am tua dwy ran o dair o'n sefydliad a 67% o gyfanswm ein gwariant.

Rydym wedi cyflwyno cynllun ariannol sy'n mantoli'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd yn dechrau 2026/2027 fel rhan o'n cyflwyniad Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig) 2026-2029 i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2026. O fewn y cynllun hwn, rydym yn rheoli nifer o bwysau costau a risgiau ariannol, gan gynnwys pwysau costau chwyddiannol sylweddol amcangyfrifedig o tua £1.5m sy'n gysylltiedig yn bennaf â gwasanaethau cyflawni sgrinio a heintiau a chontractau digidol.

Mae ein datganiadau ariannol ar gyfer 2025-2026 yn rhoi trosolwg manwl o'n perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac maen nhw wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Cyfrifon Blynyddol.

## 9.7 Cynaliadwyedd

Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026 yn manylu ar y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i fod yn sefydliad carbon-negatif (gan dynnu mwy o garbon deuocsid o'r atmosffer nag yr ydym yn ei ryddhau).

Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026 yn manylu ar y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i fod yn sefydliad carbon-negatif (gan dynnu mwy o garbon deuocsid o'r atmosffer nag yr ydym yn ei ryddhau). Mae'r cynllun yn adeiladu ar ein cynnydd blaenorol ac mae'n cynnwys camau gweithredu rydym yn eu cymryd ar draws y Sefydliad i gefnogi agendâu'r economi sylfaenol a'r economi gylchol a chyfrannu at y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym wedi integreiddio'r agendâu hyn yn ein cynllunio oherwydd y gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt, er mwyn sicrhau bod gennym un cynllun sy'n dangos ein hymrwymiad i leihau ein hôl troed carbon.

A ninnau'n ddarparwr allweddol gwasanaethau'r GIG ledled Cymru, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gweithgareddau cynaliadwyedd. Rydym yn cysoni ein huchelgais ein hunain â blaenoriaethau a thargedau allweddol a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru i sicrhau ein bod yn lleihau ein hallyriadau carbon er mwyn cyflawni allyriadau Sero Net. Rydym wedi parhau i weithio ar y cyd â'n Byrddau Iechyd a'n Hymddiriedolaethau partner yn y GIG a chyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gyflawni ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026.

Mae rhagor o enghreifftiau o'n camau gweithredu cynaliadwyedd a gymerwyd yn 2025-2026 gyda'r nod o leihau ein heffaith amgylcheddol sy'n cyfrannu at agenda dadgarboneiddio, ac economi gylchol a sylfaenol y sefydliad wedi'u cynnwys yn ein diweddariad ar Flaenoriaeth Strategol Chwech a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd ar wahân sy'n ymdrin â data cynaliadwyedd a'n hôl troed carbon ar gyfer 2025-2026 ar ein gwefan pan fydd data terfynol ar gael ym mis Medi 2026.

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

10

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

> Mae ein hamcanion llesiant yn mabwysiadu dull systemau hirdymor o wella iechyd y cyhoedd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau - maes sy'n ganolog i'n gwaith.

## 10.1 Cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol


Mae gan Gymru gyfleoedd unigryw i wneud pethau'n wahanol a sbarduno newid ystyrlon. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA), ynghyd â'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan gynnwys y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd a'r Ddyletswydd Ansawdd, yn sicrhau ein bod yn ystyried effeithiau hirdymor ein penderfyniadau ar iechyd a llesiant pobl. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn cryfhau ein pwyslais ar flociau adeiladu iechyd ymhellach.

Mae ein hamcanion llesiant yn mabwysiadu dull systemau hirdymor o wella iechyd y cyhoedd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau - maes sy'n ganolog i'n gwaith. Trwy weithio'n wahanol ac ar y cyd â phartneriaid, gallwn sicrhau bod gan fwy o bobl yng Nghymru gyfle teg i fyw bywydau hirach ac iachach, gan gynyddu disgwyliad oes iach, gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r bennod hon yn amlinellu sut rydym yn cryfhau'r ffordd rydym yn gweithredu'r Ddeddf i ysgogi newid cadarnhaol.

## 10.2 Cynyddu ein heffaith i'r eithaf

Rydym yn cynyddu ein heffaith i'r eithaf trwy gynorthwyo unigolion, timau a'r sefydliad i fabwysiadu, dysgu a gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy (5 Ffordd o Weithio) yn fwy cyson er mwyn cyflawni cyfraniadau ystyrlon.




**Y Sylfaen:**

Mae'r holl staff yn hyrwyddo'r 5 fordd o Weithio mewn ymarfer pob dydd ac yn deal!. sut rydym yn cyfrannu at flaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Nodau Liesiant.

Amlinellir enghreifftiau o sut rydym wedi gwreiddio'r 5 Ffordd o Weithio isod.

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad Buddsoddi mewn Cymru Iachach: blaenoriaethu atal (Saesneg yn unig) a atgyfnerthodd bwysigrwydd buddsoddi mewn blociau adeiladu iechyd da i wella canlyniadau llesiant a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru. Pwysleisiodd yr adroddiad fod blaenoriaethu atal yn lleihau baich ariannol salwch ar y system iechyd a gofal a chymdeithas ehangach. Ers ei lansio, mae'r adroddiad wedi derbyn cryn sylw yn y cyfryngau, cyfeiriwyd ato'n helaeth ac mae wedi llywio ein negeseuon polisi ac eiriolaeth ar werth atal. Cyfeiriwyd ato yn adroddiad Archwilio Cymru 2025 Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid i gryfhau'r achos dros gamau ataliol a chefnogi newid ar draws y system.

Mae PIPYN (Pwysau Iach Plant yng Nghymru) yn ceisio cynyddu cyfran y plant sy'n gadael y Cyfnod Sylfaen ar bwysau iach a lleihau anghydraddoldebau ar lefel y boblogaeth trwy ddull systemau cyfan, mewn tair cymuned wahanol ledled Cymru. Gan ddefnyddio'r 5 Ffordd o Weithio, gweithiodd yr Is-adran Gwella Iechyd gyda'r tair ardal i adolygu a mireinio'r model peilot, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd, i gynyddu newid system a fydd yn cynyddu cyfleoedd ar lefel gymunedol i deuluoedd fwyta'n dda a chynnwys symud a chwarae yn eu harferion teuluol.

Yn fwyaf diweddar, mae'r Tîm Gwella Iechyd wedi cyd-ddatblygu dull newydd ar gyfer y llwybr rheoli pwysau yng Nghymru gan ddefnyddio'r 5 Ffordd o Weithio, a arweiniodd at grant arloesi llwyddiannus ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer atal gordewdra a chydweithrediadau ehangach i ddatblygu llwybr pwysau iach cenedlaethol, wedi'i alluogi'n ddigidol, dan arweiniad y gymuned.

Mae gormod o deuluoedd ledled Cymru yn dal i fyw mewn tai sy'n oer, yn llaith, yn ansicr, yn orlawn, neu'n anfforddiadwy. Gall yr amodau hyn gael effaith ddwys a pharhaol ar iechyd corfforol a meddyliol plant, eu canlyniadau addysgol, a'u cyfleoedd hirdymor mewn bywyd. Mae'r tîm Polisi wedi cyhoeddi dau adroddiad wedi'u llywio gan ddulliau'r dyfodol i arwain y drafodaeth. Mae archwilio sut y gallai'r dyfodol ddatblygu'n wahanol i wahanol bobl hefyd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl mewn polisïau sy'n ceisio cyflawni Cymru iachach a mwy cyfartal. Mae'r cyhoeddiad diweddar, Creu cartr]efi iachach i blant a theuluoedd mewn tlodi ledled Cymru (Saesneg yn unig) yn dwyn ynghyd lleisiau teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi afiach. Mae'n cynnwys tystiolaeth a mewnwelediadau gan randdeiliaid i lywio polisi, meithrin dealltwriaeth gyffredin a chyfannol o "gartrefi iach," ac yn tynnu sylw at enghreifftiau a datrysiadau ymarferol sy'n dangos sut y gall tai hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb yng Nghymru.

Cefnogodd Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) y broses o ddatblygu Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru), a basiwyd gan y Senedd ym mis Tachwedd 2025. Mae'r rheoliadau hyn yn mynnu bod cyrff cyhoeddus perthnasol asesu effeithiau penderfyniadau strategol ar iechyd. Yn ystod y 12 mis nesaf cyn iddynt gychwyn ar 7 Ebrill 2027, bydd y tîm yn cefnogi sefydliadau gydag arweiniad, hyfforddiant a chyngor. Mae'r gwaith hwn yn atgyfnerthu gwerth atal, cydweithio a chynllunio hirdymor i wella iechyd a llesiant ledled Cymru.

## 10.3 Creu'r lle iawn

Mae ein *Strategaeth Pobl (2025-2035)* yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer ein gweithlu ac yn sail i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor trwy sicrhau bod ein pobl yn ymgysylltu, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'n hyrwyddo cydweithio, amrywiaeth a datblygiad parhaus, gan alluogi timau i ddysgu, arloesi a chyflawni'n effeithiol. Wrth i ni weithio i ymgorffori'r 5 Ffordd o Weithio, mae ein pobl a'n diwylliant yn ganolog i'w

llwyddiant, gan ffurfio'r ymddygiadau a'r ffyrdd o weithio sy'n dod â'r fframwaith yn fyw. Trwy ein Strategaeth Pobl a gwella ein Diwylliant, rydym yn creu'r amodau i bawb berfformio ar eu gorau wrth i ni weithio gyda'n gilydd dros Gymru iachach.

Wrth i ni weithio i greu'r amodau sy'n galluogi ein pobl i ffynnu a chyflawni ar gyfer poblogaeth Cymru, mae diwylliant wedi dod yn flaenoriaeth gyffredin ar draws ein sefydliad. Mae ymrwymiad cryf ar bob lefel i barhau i wneud cynnydd. Dangosodd canfyddiadau o'n harolwg Pwls Diwylliant diweddar fod arweinwyr yn tueddu i ystyried ein diwylliant yn fwy cadarnhaol na chydweithwyr eraill. Mae'r mewnwelediad hwn wedi llywio ein dull presennol, sy'n canolbwyntio ar gynnal cysylltiad agos â phrofiadau staff trwy fentrau fel Hyrwyddwyr Diwylliannol, gan helpu i gryfhau cydweithio ar bob lefel. Deëllir yn gyffredinol bod newid diwylliannol ystyrlon yn cymryd amser, ac mae'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu Integredig, a lansiwyd yn 2025, wedi gosod cyfeiriad clir ac yn dechrau ffurfio ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r Tîm Ymgysylltu a Chydweithio yn datblygu fframwaith ar gyfer sut rydym yn ymgysylltu â phobl a chymunedau a'u cynnwys. Ers mis Hydref 2024, mae'r tîm wedi cynnal asesiad sylfaenol i ddeall gweithgarwch ymgysylltu presennol ar draws y sefydliad, pa mor dda y mae wedi'i wreiddio yn ein gwaith, a'r hyn y mae angen i'r sefydliad ei wneud i ymgysylltu ag eraill a'u cynnwys yn effeithiol.

Rydym yn ymfalchïo'n fawr ein bod yn sefydliad dwyieithog, ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar bob lefel. Mae ein tîm Iaith Gymraeg yn sicrhau cydymffurfedd, yn darparu canllawiau a thempledi, yn cyflwyno cynnwys o ansawdd uchel ac yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae ein rhwydwaith staff Ymlaen yn cefnogi dysgu ac ymarfer diwylliannol ac mae'n un o'n rhwydweithiau mwyaf. Rydym wedi symleiddio prosesau cyfieithu ac wedi ehangu hyfforddiant, gan gynnwys Cymraeg i Reolwyr a Defnyddio eich Cymraeg yn Effeithiol. Rydym



> **Rydym yn ymfalchïo'n fawr ein bod yn sefydliad dwyieithog, ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar bob lefel.**

> Er mwyn helpu i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor (2023–35), fe wnaethom ddefnyddio meddwl ar gyfer y dyfodol i ddatblygu mapiau trywydd ar gyfer pob un o'n chwe blaenoriaeth strategol.

yn parhau i weithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, gan gynnig sesiynau Croeso a Magu Hyder, ac wedi ymuno â Chynllun Siarad GIG Cymru  i baru dysgwyr â siaradwyr rhugl, gyda chynlluniau i ehangu hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 10.4 Rhoi'r Ddeddf ar Waith tuag at Gymru Iachach: Mapiau Trywydd

Er mwyn helpu i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor (2023–35), fe wnaethom ddefnyddio meddwl ar gyfer y dyfodol i ddatblygu mapiau trywydd ar gyfer pob un o'n chwe blaenoriaeth strategol. Mae'r rhain yn amlinellu'r camau sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion ac yn nodi'r hyn y mae angen i ni ei ddechrau, ei atal neu ei wneud yn wahanol i gynyddu disgwyliad oes iach yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn ein helpu i wreiddio meddwl hirdymor yn ein penderfyniadau pob dydd, gan sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar iechyd a llesiant y boblogaeth yn y dyfodol wrth lywio heriau'r presennol.

Mae'r mapiau trywydd, a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol ym mis Hydref 2025, yn helpu staff i ddeall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at wella iechyd, ac fe'u cefnogir gan animeiddiad sy'n dangos sut maen nhw'n cyd-fynd â chynlluniau sefydliadol ehangach.

Mae'r mapiau trywydd yn sail i'n Cynllun Strategol newydd (2026–2029), a throswyd eu camau cynyddrannol yn gerrig milltir, a ddatblygwyd ar y cyd ar draws Cyfarwyddiaethau gan ddefnyddio technegau ôl-fynegi. Gan fod y chwe blaenoriaeth strategol wedi'u hintegreiddio, mae llawer o feysydd gwaith yn rhychwantu sawl blaenoriaeth. Mae arweinwyr blaenoriaeth yn cyfarfod yn fisol i sicrhau aliniad, rheoli materion trawsbynciol, a chynnal un dull cydlynol.

## 10.5 Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd tuag at Gymru Gyfartal

Mae ein *Dull o Ymdrin ag Anghydraddoldebau Iechyd* yn rhaglen draws-sefydliadol sy'n gwreiddio camau gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd ar draws chwe blaenoriaeth strategol ein strategaeth hirdymor. Datblygwyd fframwaith gydag astudiaethau achos, naratif tegwch iechyd a phecyn adnoddau ychwanegol i gynorthwyo staff, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chynllunio a gwneud penderfyniadau.

Helpodd gweithdy profi gan ddefnyddwyr gyda chydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llais, yr Uned Gwyddor Ymddygiad a'r Tîm Ymgysylltu i fireinio'r deunyddiau hyn. Mae enghreifftiau ymarferol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Canllaw Arferion Gorau Anghydraddoldebau Diogelu Iechyd yn amlinellu camau ymarferol y gall y sefydliad eu cymryd i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o fygythiadau iechyd. Mae'n darparu strategaethau ac argymhellion i'n staff ac yn cefnogi cydweithio â phartneriaid ledled Cymru i amddiffyn cymunedau agored i niwed yn well.

- Mae gan yr Is-adran Sgrinio strategaeth tegwch iechyd a gefnogir gan hyrwyddwyr tegwch ar lefel rhaglen. Maen nhw'n monitro anghydraddoldebau sgrinio yn rheolaidd gan ddefnyddio data, ymgysylltu parhaus trwy rwydwaith a chydweithio agos â thimau iechyd y cyhoedd lleol, clystyrau gofal sylfaenol a'r sector gwirfoddol i rannu dysgu a chryfhau gweithredu ar y cyd.

## 10.6 Partneriaeth â Thîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydym yn parhau i gydweithio â thîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i weithio ar feysydd blaenoriaeth a rennir. Mae enghreifftiau o gyflawniadau'n cynnwys:

- Cyfraniad yr Uned Gwyddor Ymddygiad at Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, gan ddarparu mewnwelediad arbenigol ar ymgorffori gwyddor ymddygiad yn ei dull gweithredu.

- Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant, gan roi offer cymhleth meddwl trwy systemau a meddwl ar gyfer y dyfodol ar waith gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Offeryn Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer Grymuso i gynorthwyo partneriaid i gynnwys a grymuso cymunedau.

- Rhannu gwaith dyfodol a rhagweld yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynyddu gallu a dealltwriaeth.

- Casglu mewnwelediadau i ddeall y rhwystrau a'r cyfleoedd wrth weithredu'r Ddeddf ar draws y sector cyhoeddus.

## 10.7 Gwreiddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn parhau i nodi cyfleoedd i gryfhau'r Ddeddf yn strategol ac yn weithredol a chefnogi staff i gydnabod eu cyfraniad at y Nodau Llesiant. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyflwyno sesiwn fel rhan o Academi Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar sut i weithredu'r 5 Ffordd o Weithio yn effeithiol yn ein gwaith o ddydd i ddydd, gan archwilio ffyrdd ymarferol o drosi'r fframwaith o bolisi yn newid ystyrlon. Rydym hefyd yn cydlynu grŵp Hyrwyddwyr yr WFGA ac yn archwilio ffyrdd i staff gael mynediad at hyfforddiant i gynyddu dealltwriaeth o'r Ddeddf. Rydym yn arwain dull o gefnogi'r 7 Maes Corfforaethol ymhellach i fynd i'r afael ag argymhelliad y Comisiynydd. Rydym yn datblygu dull cyfannol o alinio swyddogaethau galluogi eraill i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar draws meysydd corfforaethol a statudol. Y nod yw y bydd hyn yn arwain at ymgysylltiad cryf, ac amcanion wedi'u halinio, gyda monitro ac adrodd gwell.

Gyda'i gilydd, mae'r enghreifftiau hyn o'n gweithredoedd yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n huchelgais i greu gwelliannau cynaliadwy hirdymor i bobl Cymru. Trwy wneud pethau'n wahanol, a chryfhau ein systemau, ein diwylliant a'n partneriaethau, rydym yn adeiladu'r sylfeini ar gyfer dyfodol iachach a mwy cyfartal ac yn sicrhau bod ein gwaith heddiw yn darparu buddion parhaol i genedlaethau i ddod.



11

# SYLWADAU I GLOI

# SYLWADAU I GLOI

## Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn gamp fawr i'r sefydliad ac mae'n adlewyrchu gwaith ac ymroddiad eithriadol ein pobl ochr yn ochr â'n partneriaid, yn ystod cyfnod hynod brysur a heriol yng Nghymru.



Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym wedi datblygu ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2026-2029 sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni Cymru iachach i bobl Cymru, gan ganolbwyntio ar ein chwe blaenoriaeth strategol a amlinellir yn ein Strategaeth *Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Iachach (2023-2035)* a'n canlyniadau cyffredinol, sef cynyddu disgwyliad oes iach a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Byddwn yn gwneud hyn trwy ddarparu ystod o wasanaethau iechyd cyhoeddus clinigol craidd i'r cyhoedd a'n partneriaid, gan weithio mewn partneriaeth ar draws y system iechyd y cyhoedd a chyda phartneriaid ar draws pob sector, i gynghori ar ddata a thystiolaeth allweddol ym maes iechyd y cyhoedd, eirioli dros gamau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella a diogelu iechyd ac ysgogi'r broses o drosi tystiolaeth yn ymarfer. Rydym yn gwneud hyn i gefnogi'r cyfeiriad strategol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i adlewyrchu yn ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2026-2027.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn amlinellu sut byddwn yn mynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â gwella gwasanaethau ac ansawdd a nodwyd yn ein Rhaglenni Sgrinio'r Fron, y Coluddyn a Llygaid Diabetig, a'n Gwasanaeth Profi a Phostio Iechyd Rhywiol. Rydym wedi nodi'r camau gweithredu penodol a fydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn gyflym, ynghyd â sut byddwn yn cryfhau ein trefniadau sicrhau ansawdd ymhellach ar draws yr holl wasanaethau a swyddogaethau.

Mae ein mapiau llwybrau ar gyfer blaenoriaethau strategol yn dangos y llwybr y mae angen i ni ei ddilyn dros y blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Rydym wedi manteisio ar ddysgu rhyngwladol, datrysiadau arloesol a'r enghreifftiau gorau o bob cwr o Gymru. Mae hyn wedi llunio a gyrru ein ffocws ar sut y gallwn ddarparu'r gwerth mwyaf i bobl Cymru ac i'n partneriaid.

Rydym yn gwybod na fydd gwireddu'r gwelliannau hyn yn hawdd a bydd gofyn i ni weithio'n wahanol. Byddwn yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol a byddwn yn dangos ymrwymiad nid yn unig i gydweithio ond i wrando – ar ein staff, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Byddwn yn croesawu adborth, dysgu ac yn nodi cyfleoedd i wella.

Rhaid i ni hefyd sicrhau, fel sefydliad, ein bod yn cyflawni'n gyflym ac yn dangos ystwythder i ymateb yn ddeinamig i heriau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gennym drefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith a'n bod yn mynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw broblemau perfformiad gwasanaeth sy'n dod i'r amlwg.

Rydym yn cydnabod na allwn lwyddo ar ein pennau ein hunain na pharhau i fabwysiadu dulliau traddodiadol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu. Byddwn yn harneisio potensial arloesiadau o fewn y byd digidol a data, yn enwedig yn gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, gan gynnal y gofal priodol a chanolbwyntio ar ansawdd a diogelwch. Byddwn yn ceisio creu partneriaethau a chysylltiadau dwyffordd newydd, yn enwedig gyda meysydd fel y trydydd sector a'r cyhoedd.

Rydym yn sylweddoli maint yr heriau sy'n ein hwynebu. Bydd ymrwymiad, proffesiynoldeb ac ymdrechion ein staff gwych wrth wraidd llwyddiant a thrwy eu harweinyddiaeth a'u hymdrech nhw y byddwn yn adeiladu ar y cynnydd hyd yn hyn, ac yn parhau i ymateb i'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd y byddwn yn eu hwynebu yn y blynyddoedd i ddod.

**"Byddwn yn harneisio potensial arloesiadau o fewn y byd digidol a data, yn enwedig yn gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, gan gynnal y gofal priodol a chanolbwyntio ar ansawdd a diogelwch."**

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales